Estyn

estyn.llyw.cymru

estyn.gov.wales

# Ysgolion pob oed yng Nghymru

## Adroddiad ar heriau a llwyddiannau sefydlu ysgolion pob oed

Ionawr 2022



# Ysgolion pob oed yng Nghymru - Adroddiad ar heriau a llwyddiannau sefydlu ysgolion pob oed

Disgwylir i'r arolwg thematig hwn gefnogi Llywodraeth Cymru trwy gyflawni'r amcanion canlynol:

- Canolbwyntio ar heriau a llwyddiannau'r model pob oed
- Darparu adroddiad am gyflwr y genedl ar ysgolion pob oed

Mae'r sector ysgolion pob oed yn sector sy'n tyfu, gyda mwy na dwywaith nifer yr ysgolion yn agor yn 2020 o gymharu â 2017. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar dri maes eang, sef:

- Y rhesymeg ar gyfer sefydlu ysgol bob oed
- Sefydlu ysgolion pob oed
- Effaith model ysgol bob oed

# CONTENTS


## Manylion y ddogfen
Hawlfraint
Cyflwyniad
Cefndir
Prif ganfyddiadau
Argymhellion
Y rhesymeg ar gyfer sefydlu ysgol bob oed
Sefydlu ysgolion pob oed
Effaith model ysgol bob oed
Geirfa
Cyfeiriadau

## Atodiadau
Atodiad 1: Sail y dystiolaeth
Atodiad 2: Siartiau a thablau
Atodiad 3: Cyfnod pontio disgyblion mewn ysgolion pob oed a chanlyniadau arolygu
Atodiad 4: Strwythurau Uwch Arweinyddiaeth mewn ysgolion pob oed
Atodiad 6: Cyd-destun pellach ar gyfer ysgolion sydd wedi eu cynnwys mewn cameos

# Manylion y ddogfen

Hawlfraint

Cyflwyniad

Cefndir

Prif ganfyddiadau

Argymhellion

Y rhesymeg ar gyfer sefydlu ysgol bob oed

Sefydlu ysgolion pob oed

Effaith model ysgol bob oed

Geirfa

Cyfeiriadau

# Hawlfraint

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru.  Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion arbennig
- ysgolion pob oed
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau arbenigol annibynnol
- dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau awdurdod addysg lleol ar gyfer plant a phobl ifanc
- addysg a hyfforddiant athrawon
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi.  Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor

Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW   neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae’r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen benodol/cyhoeddiad penodol.**

# Cyflwyniad

Disgwylir i'r arolwg thematig hwn gefnogi Llywodraeth Cymru trwy gyflawni'r amcanion canlynol:

- Canolbwyntio ar heriau a llwyddiannau'r model pob oed
- Darparu adroddiad am gyflwr y genedl ar ysgolion pob oed

Mae'r sector ysgolion pob oed yn sector sy'n tyfu, gyda mwy na dwywaith nifer yr ysgolion yn agor yn 2020 o gymharu â 2017. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar dri maes eang, sef:

- **Y rhesymeg ar gyfer sefydlu ysgol bob oed**
- **Sefydlu ysgolion pob oed**
- **Effaith model ysgol bob oed**

Gellir diffinio ysgol bob oed fel ysgol sy'n cyfuno o leiaf ddau gam o addysg plentyn (cynradd ac uwchradd, yn nodweddiadol). Yng Nghymru, caiff ysgolion pob oed eu dosbarthu'n ysgolion canol, a'u diffinio yn ôl ystod oedran y disgyblion y maent yn darparu ar eu cyfer. Gallai hyn fod naill ai o 3 neu 4 oed i 16 neu 19 oed. Mae'r rhan fwyaf o'r ysgolion pob oed yng Nghymru yn darparu addysg ar gyfer disgyblion rhwng 3 ac 16 mlwydd oed, ac felly'n cynnwys darpariaeth feithrin. Mae tua hanner ohonynt yn cynnwys chweched dosbarth hefyd, sy'n estyn yr ystod oedran i fyny i 19 mlwydd oed. Mae tua hanner yr ysgolion pob oed yn ysgolion cyfrwng Saesneg, a'r ysgolion eraill yn rhai cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog. Yn 2021, mae darpariaeth sylfaen adnoddau mewn chwe ysgol bob oed.

Casglwyd tystiolaeth gan dîm o 12 AEM a dau arolygydd cymheiriaid trwy ymweld â phob un o'r ysgolion pob oed sydd ar agor yng Nghymru. Cysylltwyd ag awdurdodau lleol i gael eu barn trwy gyfuniad o alwadau ffôn ac ymweliadau.

Cyn dechrau'r pandemig ym mis Mawrth 2020, yn ystod ymweliadau â darparwyr, bu'r tîm yn cyfweld ag arweinwyr ac athrawon. Cyfarfuon nhw â llywodraethwyr a chynnal teithiau dysgu. Casglwyd barn disgyblion trwy gyfweliadau yn ystod yr

ymweliadau hyn. Rhoddwyd y disgyblion mewn grwpiau bach gyda'u gwaith i ddangos enghreifftiau a thystiolaeth o'r hyn roeddent yn ei ddweud. Cafodd y gwaith thematig hwn ei oedi oherwydd y pandemig, ac ailddechreuodd gweithgarwch ym mis Ebrill 2021. Ar yr adeg hon, nid oedd y tîm yn gallu arsylwi gwersi na chymryd rhan mewn teithiau dysgu. Roedd cyfweliadau â staff a disgyblion wedi'u cyfyngu oherwydd cyfyngiadau COVID-19. O ganlyniad, yn lle hynny, dadansoddodd arolygwyr wybodaeth bresennol am ysgolion pob oed i sefydlu'r cyd-destun a'r cefndir. Hefyd, ystyrion nhw dystiolaeth ar gyfer y 12 ysgol bob oed a arolygwyd. Gan mai yn ei ddyddiau cynnar o hyd y mae'r sector ysgolion pob oed, gellir ystyried hwn yn adroddiad cychwynnol ar gyflwr y sector.

# Cefndir

Mae nifer yr ysgolion pob oed yng Nghymru yn cynyddu, a disgwylir y bydd mwy ohonynt yn agor yn yr ychydig flynyddoedd nesaf. Yn 2020-2021, parhaodd awdurdodau lleol i gynnig sefydlu ysgolion pob oed. Cyflwynodd pedwar awdurdod lleol gwahanol bedwar cynnig ar gyfer ymgynghori arnynt. Ym mis Ionawr 2020, roedd 22 o ysgolion pob oed yng Nghymru, felly byddai'r pedwar cynnig hyn yn gynnydd o bron i 20% yn genedlaethol. (Mae'r adran ystadegau isod yn amlinellu nodweddion yr ysgolion pob oed newydd, a sut maen nhw'n cymharu â threfniadaeth flaenorol ysgolion yn yr ardal honno.)

Yn sgil nifer gynyddol y ceisiadau, sbardunwyd Llywodraeth Cymru i ofyn am astudiaeth i ba mor llwyddiannus yw ysgolion pob oed, a ph'un a yw safonau'n well mewn ysgol bob oed o gymharu ag ysgolion uwchradd a chynradd ar wahân. Ni fydd yr adroddiad hwn yn gallu gwerthuso safonau mewn ffordd ystyrlon gan mai dim ond ers ychydig o flynyddoedd y mae llawer o'r ysgolion hyn wedi cael eu sefydlu, ac oherwydd y pandemig, nid yw arolygwyr wedi gallu gwerthuso safonau'n ehangach. Hefyd, dim ond tua hanner yr ysgolion pob oed sydd wedi agor hyd yma y mae Estyn wedi'u harolygu.

# Ymchwil

Mae ymchwil i ysgolion pob oed yn gyfyngedig, yn bennaf o ganlyniad i niferoedd cymharol isel yr ysgolion pob oed yng Nghymru ac mewn gwledydd eraill. Mae ymchwil a gyhoeddwyd yn ystod y 20 mlynedd ddiwethaf yn canolbwyntio'n bennaf ar botensial ysgolion pob oed. Mae hyn yn cynnwys eu potensial i wella addysgeg a gofal, manteision ar gyfer datblygu dysgu, a heriau posibl ar gyfer arweinyddiaeth.

Fe wnaeth llawer o awdurdodau lleol elwa ar Raglen Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif (Llywodraeth Cymru, 2019) i sefydlu ysgolion pob oed. Darparodd hyn fuddsoddiad seilwaith mawr mewn ysgolion a cholegau. O ganlyniad, mae llawer o ysgolion pob oed wedi eu lleoli naill ai mewn adeiladau newydd sbon neu safleoedd wedi'u hadnewyddu a safleoedd estynedig.

Yn 2018, mae'r papur ymchwil diweddaraf gan Reynolds *et al.* (2018) yn archwilio effeithiau model pob oed yn rhyngwladol a sut gallai gymharu â model Cymru.

Mae'r adroddiad wedi'i seilio ar ymweliadau â chwe ysgol bob oed yn ne, canolbarth a gogledd Cymru, a chyfweliadau lled-strwythuredig ag arweinwyr, staff addysgu a disgyblion. Mae'n cynnwys adolygiad llenyddiaeth o waith rhyngwladol ar ysgolion pob oed. Mae'r adroddiad yn dod i'r casgliad canlynol (Reynolds *et al.,* tud.11):

- Bod 'manteision datblygol model pob oed ar addysgeg, ac ymagwedd arloesol a synergyddol at addysgu a dysgu, yn caniatáu ar gyfer cyfuno elfennau mwyaf effeithiol strategaethau addysgu mewn gwahanol sectorau addysgol er budd deilliannau dysgu disgyblion'.
- Mae'n ymddangos bod model ysgol bob oed 'yn ysgogi datblygiad proffesiynol staff, yn cyfoethogi ac amrywio eu set sgiliau, ac yn ogystal â hyn, yn cynyddu eu cymhwysedd a'u hyder proffesiynol i greu'r amgylchedd dysgu gorau ar gyfer eu disgyblion'.
- 'Mae parhad yr addysg trwy gydol y cyfnodau allweddol o fewn yr un amgylchedd yn gallu caniatáu mwy o gydlyniant a gostyngiad yn y materion yn gysylltiedig â phontio, a allai, o ganlyniad, leihau straen disgyblion, gwella'u lles a rhoi cyfle gwell iddyn nhw gael deilliannau addysgol mwy ffafriol, ac ansawdd bywyd gwell yn y dyfodol.'

Yn Lloegr a'r Alban, mae ymchwil wedi canolbwyntio ar fudd model ysgol bob oed. Mae papur gan yr Adran Addysg a Sgiliau (2006) yn nodi manteision posibl ond heb unrhyw dystiolaeth i brofi cyflawni'r potensial hwnnw. Yn 2011, darparodd arolygiaeth Yr Alban ganllaw i ymestyn dysgu mewn ysgolion pob oed, a nododd mai'r cryfderau presennol yw'r canlynol (Arolygiaeth Addysg Ei Mawrhydi Yr Alban, 2011, tud.6):

- hinsawdd ac ethos, yn cynnwys ansawdd perthnasoedd
- partneriaethau â rhieni a'r gymuned leol
- bodloni anghenion pobl ifanc ag anghenion cymorth ychwanegol

Mewn adroddiad gan Swidenbank (2007) ar heriau a chyfleoedd arwain a rheoli ysgol bob oed i'r Coleg Cenedlaethol ar gyfer arweinyddiaeth ysgol, amlygwyd cyfleoedd a heriau ar gyfer arweinyddiaeth mewn ysgolion pob oed. Roedd y cyfleoedd yn cynnwys (Swidenbank, 2007, tud.6):

- bod yn rhan o rywbeth newydd a chyffrous
- cael y gallu i newid a datblygu fel arweinydd, sydd, yn ei dro, yn hyrwyddo arweinyddiaeth ddosbarthedig
- lleihau'r rhwystrau rhag dysgu ar draws y sectorau cynradd ac uwchradd
- gwella datblygiad personol a lles myfyrwyr, ac ennill dealltwriaeth well o'r gymuned
- cyflawni gwerth gwell am arian trwy arbedion maint

Dyma'r heriau a amlygwyd (Swidenbank, 2007, tud.11):

- newid y diwylliant a mynd i'r afael â chyd-destun a hanes yr ysgol
- newid amgyffrediad a chodi ymwybyddiaeth am beth mae'n ei olygu i fod yn athro ysgol gynradd neu uwchradd
- pwysau o ran amser a chyfleusterau

Astudiaethau ar raddfa fach yn unig oedd ymchwil ryngwladol yn Jamaica (Prosiect Ysgolion Pob Oed Jamaica, 2003) a'r Ffindir (Wilborg, 2004), a gwnaethant gyffredinoliadau am y system yn eu gwledydd eu hunain.

# Ffeithiau a ffigurau


Dros y pedair blynedd ddiwethaf, mae nifer yr ysgolion pob oed yng Nghymru wedi codi o 10 ysgol yn 2017 i 23 ysgol erbyn mis Medi 2021. Yn sgil hyn, mae nifer y disgyblion sy'n cael eu haddysgu mewn ysgolion pob oed wedi mwy na dyblu.

Fel arfer, caiff ysgolion pob oed eu ffurfio o gyfuno ysgol(ion) uwchradd ac ysgol gynradd / ysgolion cynradd. Mae tair ysgol bob oed wedi esblygu o un ysgol gychwynnol, sef Ysgol Santes Ffraid, Ysgol Caer Elen ac Ysgol Llanhari. Gan eu bod nhw mor newydd, nid oes unrhyw ysgol bob oed yng Nghymru sydd wedi addysgu disgyblion trwy gydol cyfnod eu haddysg statudol (heblaw Santes Ffraid a oedd yn ysgol annibynnol cyn newid ei statws).

I egluro'r cymhlethdod ac amrywiant ymhellach mewn ysgolion pob oed yng Nghymru, mae canrannau disgyblion sy'n trosglwyddo i Flwyddyn 7 o Flwyddyn 6 yn amrywio o 80% i lawr i 6%. Gallwch chi weld mwy o fanylion yn Atodiad 3.

**Ffigur 1: Ysgolion pob oed yng Nghymru**

Ffynhonnell: Rhestr gyfeiriadau ysgolion, LlC, darllenwyd Hydref 2021




# Deilliannau arolygu

Mae deilliannau arolygu er 2017 yn dangos darlun amrywiol ar draws yr ysgolion. O'r wyth ysgol a arolygwyd o dan y trefniadau newydd a gyflwynwyd yn 2017, barnwyd bod pedair ysgol yn dda neu'n well ar gyfer pob un o'r meysydd arolygu, neu'r rhan fwyaf ohonynt. Roedd angen gweithgarwch dilynol ar bedair ysgol, a rhoddwyd dwy o'r ysgolion hyn yn y categori adolygu gan Estyn. Roedd angen gwelliant sylweddol ar y ddwy ysgol arall.

Y maes arolygu cryfaf yw lles ac agweddau at ddysgu, tra bod darpariaeth ar gyfer gofal, cymorth ac arweiniad yn gryf hefyd. Safonau yw'r gwannaf o'r meysydd arolygu, sy'n adlewyrchu'r diffygion mewn addysgu ac arweinyddiaeth bron ym mhob achos.

# Prif ganfyddiadau

## Y rhesymeg ar gyfer sefydlu ysgol bob oed

Er bod cefnogaeth ar gyfer sefydlu ysgolion pob oed, nid oes canllawiau cenedlaethol ar gael i awdurdodau lleol ac arweinwyr ysgolion. Felly, mae gan awdurdodau lleol eu cynlluniau amrywiol eu hunain i weddu i’w hamgylchiadau unigryw. Mae’r rhain bron bob amser yn rhan o gynlluniau trefniadaeth ysgolion ehangach yr awdurdod hwnnw. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru fel arfer ar wahân ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd, sy’n ei gwneud yn anodd i ysgolion pob oed ystyried a llywio er mwyn sefydlu eu datganiadau sefyllfa eu hunain. O ganlyniad, ni chaiff y sector ysgolion pob oed ei gydnabod yn sector ar wahân yn ddigon da ar hyn o bryd.

Mae’r rhwydwaith cenedlaethol o ysgolion pob oed yn dod ag ymdeimlad gwerth chweil o berthyn i sector ar wahân sy’n dod i’r amlwg. Oherwydd diffyg canllawiau cenedlaethol, mae’r grŵp hwn wedi darparu cymorth i’w gilydd, wedi brocera grantiau o ffynonellau allanol, ac wedi gweithio i amlygu’r anawsterau ac arfer orau.

Mae’r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn rhagweld y bydd manteision ysgol bob oed yn gorbwyso’r anfanteision. Caiff y manteision hyn eu hesbonio’n dda fel arfer mewn dogfennau ymgynghori, ac maent yn cynnwys manteision i les disgyblion, profiadau dysgu gwell, pontio esmwyth, ansawdd gwell yr amgylchedd dysgu, ac yn aml, cadw darpariaeth cyfrwng Cymraeg lwyddiannus.

Dros gyfnod, mae awdurdodau lleol wedi dysgu o brofiadau ei gilydd, yn ogystal â defnyddio’r ymchwil ar fodelau pob oed llwyddiannus. O ganlyniad, mae’r ymgynghoriadau diweddaraf yn llawer craffach o ran manteision sefydlu ysgol bob oed, ac yn osgoi llawer o’r anawsterau a brofwyd gan y rhai a fabwysiadodd y model pob oed yn gynnar.

# Sefydlu ysgolion pob oed

Caiff y rhan fwyaf o ysgolion pob oed eu ffurfio o ganlyniad i gau ysgolion sy’n

bodoli'n barod ac ailagor ar un o'u safleoedd fel ysgol newydd. Mae hyn weithiau fel ysgol wedi'i hadeiladu o'r newydd, neu drwy addasu adeiladau presennol. Mewn llawer o achosion, caiff ysgol bob oed ei chynllunio ar sawl safle, yn amrywio o ddau safle i gynifer â chwe safle gwahanol. Mewn ychydig o achosion, mae safleoedd yr ysgol wedi eu lleoli ychydig filltiroedd ar wahân.

Mae ysgolion pob oed wedi bod yn fwyaf llwyddiannus pan maent yn newydd, ac mae arweinwyr a'r awdurdod lleol wedi ymgysylltu'n dda â'r gymuned leol. Maent wedi gofalu i beidio â thanamcangyfrif pa mor gryf yw'r teimladau, er enghraifft ynglŷn â'r ysgolion a glustnodwyd i'w cau. Mae arweinwyr wedi treulio amser yn amlinellu'r manteision i ddisgyblion a'r gymuned, lleddfu pryderon a rhoi sicrwydd. Mae rhieni, staff a llywodraethwyr wedi gwerthfawrogi cael gwybodaeth gyson am y broses a'r gweithdrefnau.

At ei gilydd, mae awdurdodau lleol wedi darparu cymorth priodol ar gyfer cyrff llywodraethol yn ystod y broses i sefydlu ysgol bob oed. Yn benodol, mae cymorth gan adrannau adnoddau dynol ac adrannau cyfreithiol wedi sicrhau bod y gweithdrefnau cywir yn cael eu dilyn, gan amlaf. Fodd bynnag, mae cefnogaeth i benaethiaid wedi amrywio ledled Cymru. Mewn ychydig o achosion, gallai awdurdodau lleol wneud mwy i gynorthwyo penaethiaid wrth sefydlu'r ysgol, er enghraifft o ran rheoli cyfathrebu â'r gymuned, rheoli adeiladau a materion staffio.

Mae amser cynllunio a pharatoi ar gyfer penaethiaid cyn agor ysgol bob oed newydd yn amrywio. Pan mae penaethiaid wedi cael amser i ymgynghori a datblygu polisïau a gweithdrefnau, mae hyn wedi cyflwyno buddion i'r ysgol. Mabwysiadodd y rhan fwyaf o ysgolion strwythur arwain lle mae gan arweinwyr gyfrifoldebau ysgol gyfan sy'n rhychwantu pob sector. Yn yr achosion prin ble na sefydlwyd hyn o'r dechrau, mae ysgolion wedi sylweddoli ei fantais yn gyflym, ac wedi addasu eu cyfrifoldebau arwain yn unol â hynny.

Ystyriodd arweinwyr ysgol mai'r flwyddyn gyntaf ar ôl agor oedd yr un fwyaf heriol. Maent wedi rhannu'r gwersi a ddysgwyd am greu systemau cyffredin ac ethos cydweithredol â'u cyfoedion. Mae ysgolion a sefydlwyd yn fwy diweddar wedi elwa ar y cyngor hwn ac, o ganlyniad, wedi osgoi llawer o anawsterau a rhwystrau.

Mae llawer o awdurdodau lleol ac arweinwyr yn nodi y byddai cyfathrebu cliriach a mwy tryloyw â'r gymuned, staff a disgyblion yn ystod y broses ymgynghori

wedi cefnogi sefydlu ysgol bob oed yn fwy esmwyth. Byddai cyfathrebu gwell wedi osgoi llawer o gamsyniadau, ac wedi arwain at lai o wrthwynebiad, a phroses sy'n llai blin.

# Effaith model ysgol bob oed

Bron ym mhob ysgol bob oed, mae cyfran sylweddol o ddisgyblion yn pontio o ysgolion cynradd partner i Flwyddyn 7. Gallai hyn fod cynifer â 94% o'r garfan i lawr i 20%. Wrth iddynt bontio o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7, dywed ysgolion fod disgyblion oddi mewn i ysgol bob oed yn ymgynefino'n dda ym Mlwyddyn 7, ac yn gwneud cynnydd gwell yn eu blwyddyn gyntaf na'r rhai sy'n trosglwyddo o ysgolion cynradd ar wahân. Mae hyn oherwydd bod y disgyblion hynny yn gyfarwydd â sut cânt eu haddysgu, ac yn ychwanegol, mae athrawon eisoes yn adnabod y disgyblion hyn yn dda (gweler Atodiad 3).

Mae gofal a chymorth bugeiliol ar gyfer lles disgyblion yn gryfder yn y rhan fwyaf o ysgolion pob oed, ac wedi bod yn flaenoriaeth ers agor ysgolion. Mae hyn yn golygu bod darpariaeth ac ymyriadau mewn llawer o ysgolion yn aml yn ddi-dor, ac yn ysgogi gwelliannau i ddeilliannau yn ystod cyfnod y plentyn yn yr ysgol. O ganlyniad, ar y cyfan, mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, yn cael gofal da, ac yn cael eu cefnogi a'u gwerthfawrogi.

Mae gwella addysgu yn flaenoriaeth allweddol ar gyfer ysgolion pob oed. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn gweithio gyda'i gilydd i gynllunio a gweithredu cwricwlwm sy'n ystyried dilyniant ar draws pob sector. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi datblygu eu gweledigaeth ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru, ac wedi dechrau treialu adnoddau a dulliau. Mae hyn yn cynnwys sylweddoli'r angen am gwricwlwm cydlynus sy'n ystyried cynnydd yn briodol. Mae athrawon sydd ag arbenigedd mewn gwahanol agweddau ar y cwricwlwm yn ymestyn profiadau dysgu ar draws pob sector. Mae trefniadau dysgu proffesiynol mewn ysgolion pob oed yn hynod ddefnyddiol, yn cynnwys rhannu arfer dda mewn addysgu yn fewnol neu rhwng ysgolion. Fodd bynnag, yn aml, nid yw dysgu proffesiynol allanol yn ddigon penodol ar gyfer y sector pob oed.

Wrth sefydlu a datblygu timau arweinyddiaeth ar gyfer ysgolion pob oed, mae llywodraethwyr yn sylweddoli bod angen i ysgolion elwa ar fedrau o gefndiroedd y sector cynradd ac uwchradd. At ei gilydd, mae timau arweinyddiaeth pob oed llwyddiannus fel arfer yn cynnwys cyfuniad o arweinwyr â chefndiroedd mewn

gwahanol sectorau.

Mae ansawdd yr hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant ar draws y sector yn amrywiol. Fodd bynnag, yn yr enghreifftiau gorau, mae ysgolion yn gwerthuso darpariaeth a safonau ar draws sectorau, a rhyngddynt. Mae athrawon yn craffu ar waith disgyblion ar draws ystodau oedran ac yn gwerthuso cynnydd dros gyfnod. Mae hyn yn rhoi darlun cynyddol gywir o gynnydd disgyblion yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, ac yn galluogi arweinwyr i fynd i'r afael ag unrhyw ostyngiadau mewn dysgu yn brydlon.

# Argymhellion

**Dylai Llywodraeth Cymru:**

A1 Ystyried cyflwyno canllawiau cenedlaethol i ysgolion pob oed i gefnogi ysgolion pob oed, eu harweinwyr, llywodraethwyr ac awdurdodau lleol

**Dylai awdurdodau lleol / consortia rhanbarthol:**

A2 Sicrhau bod ymgynghori ar sefydlu ysgol bob oed yn ystyrlon, yn dryloyw ac yn fuddiol o ran ymgysylltu â'r gymuned leol i gefnogi newid i wella'r ddarpariaeth ar gyfer eu plant

A3 Penodi arweinwyr ar gyfer ysgolion pob oed newydd yn gynnar i ddarparu digon o amser cynllunio a pharatoi

A4 Darparu hyfforddiant a chymorth â ffocws gwell, sy'n benodol i sector, er enghraifft i wella arfer ystafell ddosbarth ar draws pob sector o'r ysgol

**Dylai ysgolion:**

A5 Barhau i gynllunio a darparu cwricwlwm cyfoethog sy'n symud ymlaen yn naturiol ar draws yr ystod oedran lawn

A6 Cydweithio ymhellach ag ysgolion eraill i ddatblygu polisïau a gweithdrefnau pob oed, a rhannu arfer dda

# Y rhesymeg ar gyfer sefydlu ysgol bob oed

Er bod cefnogaeth ar gyfer sefydlu ysgolion pob oed, nid oes canllawiau cenedlaethol penodol i sector ar gael i awdurdodau lleol ac arweinwyr ysgolion. Felly, mae gan awdurdodau lleol eu cynlluniau amrywiol eu hunain i weddu i'w hamgylchiadau unigryw. Mae'r rhain bron bob amser yn rhan o gynlluniau trefniadaeth ysgolion ehangach yr awdurdod hwnnw. Yn ychwanegol, nid oes term a gydnabyddir yn gyffredin ar gyfer y sector o fewn 'Fy ysgol leol' a'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD), gan gyfeirio atynt fel ysgolion 'canol' a rhai eraill fel ysgolion 'pob oed'. Mae materion nodedig eraill yn cynnwys ychydig bach yn unig o addysg gychwynnol athrawon benodol a dysgu proffesiynol pwrpasol cyfyngedig ar gyfer y sector. Mae Llywodraeth Cymru fel arfer yn cyhoeddi canllawiau ar wahân ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd. Hefyd, caiff mesurau fel trothwyau prydau ysgol am ddim a phresenoldeb eu cyfrifo ar gyfer y sector uwchradd a chynradd ar wahân. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd i ysgolion pob oed sefydlu eu datganiadau sefyllfa eu hunain a chynnal eu hunaniaeth fel un ysgol. Hefyd, mae gan ganllawiau ar wahân y potensial i roi baich ychwanegol ar athrawon ac arweinwyr ysgolion mewn ysgolion pob oed gan fod angen iddynt ddarllen nifer o ddogfennau.

I'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol, mae sefydlu ysgol bob oed yn rhan annatod o'u strategaeth ad-drefnu ysgolion. Adlewyrchir hyn yn nifer gynyddol y cynigion ad-drefnu ynghylch ysgolion pob oed a gyflwynir i Lywodraeth Cymru ar y cyd â'r strategaethau sy'n gysylltiedig â chyllid yr 21ain ganrif.

# Modelau

Ledled Cymru, ffurfiwyd ysgolion pob oed o gyfuniadau amrywiol o ysgolion sy'n bodoli eisoes i weddu i anghenion y gymuned leol. Ym mwyafrif yr achosion, mae ysgolion uwchradd yn uno ag ysgolion cynradd. Mae nifer yr ysgolion dan sylw yn amrywio'n sylweddol o dair ysgol uwchradd gydag un ysgol gynradd i un ysgol uwchradd gydag wyth ysgol gynradd. Gellir gweld manylion am fodelau sy'n bodoli ar hyn o bryd yn Atodiad 2.

Mae awdurdodau lleol yn ystyried yn ofalus pa fodel i'w fabwysiadu, a sut mae'n gweddu i'w cynlluniau ad-drefnu. Mae uno sawl ysgol gynradd â'r ysgol uwchradd

yn galluogi ychydig o awdurdodau lleol i gau ysgolion y mae eu hadeiladau mewn cyflwr gwael, gan felly leihau ystâd a chostau cynnal a chadw'r ysgol, tra'n ceisio darparu cyfnod pontio esmwyth i ddisgyblion.

# Cyllid

Mae ychydig o awdurdodau lleol yn sicrhau cyllid ar gyfer adeiladau newydd i ddarparu ar gyfer yr holl ddisgyblion. Mae'r ysgolion hyn a adeiladwyd yn bwrpasol, a gynlluniwyd yn gyffredinol ar y cyd â disgyblion, rhieni a'r gymuned leol, yn darparu amwynderau gwell o lawr na'r rhai oedd ar gael o'r blaen. Yn gyffredinol, mae awdurdodau'n uwchraddio adeiladau presennol ac yn ychwanegu adeiladau newydd ar y safle presennol, pan fydd angen.

Mae lleihau nifer y safleoedd wedi rhyddhau cyllid cyfalaf ar gyfer awdurdodau lleol. Mae hyn wedi cael ei ailfuddsoddi yng ngwasanaeth addysg yr awdurdod yn bennaf, a'i ddefnyddio i fodloni'r beichiau o ran ailstrwythuro. Mae llawer o'r hen safleoedd wedi cael eu dychwelyd i'r gymuned neu wedi cael eu rhyddhau ar gyfer datblygiad lleol.

# Rhesymeg awdurdodau lleol

Cyhoeddodd ychydig o awdurdodau lleol ddatganiad sefyllfa ynglŷn â'r rhesymeg y tu ôl i sefydlu ysgol bob oed. Dangosodd y datganiadau neu'r polisïau hyn fanteision posibl y model pob oed. Roedd hyn o fudd i'r awdurdodau lleol ar gyfer yr ymgynghoriad ffurfiol, a darparodd sylfaen gadarn ar gyfer ystyried ysgolion pob oed yn y dyfodol. Un o'r prif fanteision posibl a nodwyd yw gwella lles disgyblion trwy gydol eu bywyd ysgol. Nodon nhw hefyd fod datblygu addysgeg ysgol gyfan yn nodwedd gadarnhaol ysgolion pob oed a allai arwain at ddysgu gwell a chynnydd cadarn.

Cafwyd ymatebion amrywiol gan awdurdodau lleol ynglŷn â'r rhesymeg ar gyfer sefydlu ysgol bob oed yn eu hardal. Roedd gan bob achos set unigol o resymau y tu ôl i'r rhesymeg, gan ystyried anghenion y disgyblion yn nalgylch yr ysgol a'r gymuned gyfagos.

Mewn tri awdurdod lleol, nodwyd y byddai agor ysgol bob oed yn diogelu addysg mewn ardaloedd gwledig. Mewn rhai achosion, roedd hyn yn golygu cau ysgolion

bach a ffurfio un ysgol fawr yn gwasanaethu ardal ehangach. Nodwyd hefyd bod ad-drefnu a ffurfio ysgol bob oed yn diogelu a datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg trwy uno ysgolion cynradd bach cyfrwng Cymraeg ag ysgol uwchradd fwy, ond sy’n fach o hyd.

Sefydlwyd ychydig o ysgolion pob oed i helpu gwella safonau ysgolion a oedd yn methu yn y gorffennol. Yn yr achosion hyn, credai awdurdodau lleol y byddai uno ysgolion llwyddiannus ag ysgolion sy’n perfformio’n waelach yn darparu arweinyddiaeth gadarn, yn gwella addysgu ac yn arwain at safonau uwch. Ar yr adeg gynnar hon, prin yw’r dystiolaeth fod hyn wedi cael ei gyflawni’n llawn. Hefyd, mae gan yr ymagwedd hon y potensial i greu anfodlonrwydd ymhlith staff ysgol a’r gymuned ehangach. Mewn ychydig o achosion, ysgolion pob oed fu’r model ffafriedig o ran ymateb i ostyngiad yn y niferoedd ar y gofrestr yn yr ardal, yn ogystal â dirywiad mewn cyflwr adeiladau.

# Staffio

Yn y rhan fwyaf o achosion, byddai’r awdurdod lleol, yn gweithio gyda’r corff llywodraethol cysgodol, fel arfer yn cyflogi staff o’r ysgolion presennol, ond nid oedd yn gwarantu swyddi. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, nid oedd addunedau a wnaed i gymuned yr ysgol yn ystod y cam datblygu ynghylch cyllid a chynnal lefelau staffio bob amser yn gynaliadwy nac yn realistig.

Mae strwythurau arweinyddiaeth ganol yn amrywio yn ôl cyd-destun a maint yr ysgol. Mae rhai ysgolion yn mabwysiadu strwythur gydag arweinwyr ar gyfer pob maes dysgu a phrofiad; mae’r rhain yn gyfrifoldebau ysgol gyfan ar draws pob sector, ar y cyfan. Mewn ysgolion eraill, ceir strwythurau sy’n perthyn yn gyffredinol i bynciau neu ddisgyblaethau, medrau neu rolau bugeiliol. Mewn ychydig o ysgolion, beth bynnag yw strwythur yr arweinyddiaeth, nid oes continwwm o gyfrifoldebau ysgol gyfan y tu allan i’r uwch dîm arweinyddiaeth. Yn ychwanegol, mewn ychydig o ysgolion lle mae gan arweinwyr canol gyfrifoldeb am feysydd dysgu a phrofiad cyfan, nid oes gan yr arweinwyr hyn y wybodaeth a’r medrau y tu hwnt i’w pwnc eu hunain i gefnogi gwelliannau ar draws y MDPh cyfan. Fodd bynnag, mae ysgolion yn adolygu eu strwythurau staffio yn barhaus i fodloni anghenion presennol a bodloni blaenoriaethau cenedlaethol a lleol.

# Cymorth gan awdurdodau lleol

Mae awdurdodau lleol yn cynorthwyo arweinwyr ysgolion yn briodol â materion yn ymwneud â phersonél, ac yn rhoi arweiniad i ysgolion ar faterion fel diogelu cyflogau a diswyddiadau pan fydd angen. Rhoddir arweiniad cryf i ysgolion ar faterion cyfreithiol ynglŷn â phrosesau i gau ysgolion a sefydlu ysgol newydd, er enghraifft wrth gynnal ymgynghoriadau a delio â'r gymuned. Fodd bynnag, teimlai ychydig o ysgolion nad oedd yr awdurdod lleol bob amser yn gwireddu addewidion a wnaed adeg yr ymgynghori, fel materion ynghylch cyllid, diogelwch swyddi a chymorth.

Yn nyddiau cynnar ystyried ysgolion pob oed fel modelau o ran ad-drefnu ysgolion, tyfodd y rhan fwyaf o heriau o ddiffyg cyfathrebu ac ymgysylltu, gan arwain at ofni'r anghyfarwydd. Daeth llywodraethwyr yn bryderus nad oedd unrhyw ddeddfwriaeth yn diffinio cyfansoddiadau cyrff llywodraethol ar gyfer ysgolion pob oed heblaw ar gyfer ysgolion a gynhelir, yn gyffredinol. Hefyd, disgrifion nhw'r modd nad oedd yr awdurdod lleol bob amser yn gweithio'n ddigon agos â nhw i'w harwain trwy brosesau cymhleth.

Mewn ychydig o achosion, nid oedd cyfathrebu â chymuned yr ysgol bob amser yn ddigon clir. O ganlyniad, roedd rhieni a staff weithiau'n amgyffred yn anghywir beth oedd bwriadau'r corff llywodraethol a'r awdurdod lleol. Ystyriwyd bod sefydlu ysgol bob oed newydd yn fygythiad i gymunedau lleol trwy gau ysgolion lleol mewn cymunedau bach. Dywed staff eu bod yn teimlo dan fygythiad gan ysgol newydd, ac roeddent yn pryderu am eu swyddi yn y dyfodol. Nid oedd ymgysylltu â'r gymuned leol yn ystod ymgynghori bob amser yn ystyrlon, yn dryloyw nac yn fuddiol i gefnogi newid i wella'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion.

Mewn ychydig o achosion, nid oedd y rhesymeg ar gyfer ffurfio ysgol bob oed yn cynnwys naratif cymhellol am fanteision addysgol i ddysgwyr. Roedd diffyg tryloywder a chyfathrebu wrth ddod â mwy nag un gymuned ysgol at ei gilydd, a oedd yn broblem benodol mewn mwy nag un ardal. Er enghraifft, roedd rhieni'n bryderus am blant ifanc yn cymysgu ac yn rhannu'r un cyfleusterau gyda disgyblion llawer hŷn, ac am effaith newidiadau i hyd y teithiau i ysgolion. Tanamcangyfrifodd yr awdurdod lleol gryfder y teimladau ynghylch ethos a diwylliant ysgolion sy'n bodoli eisoes, ac roedd gwrthwynebiad cryf i ychydig o ysgolion.

At ei gilydd, wrth ystyried y rhesymeg ar gyfer sefydlu ysgol bob oed, ychydig iawn o ymchwil neu arbenigedd sydd gan awdurdodau lleol a chyrff llywodraethol i fanteisio arno yng Nghymru. Ers sefydlu'r ysgolion cyntaf, maent wedi datblygu diwylliant cryf o rannu arfer ac wedi dysgu gwersi gwerthfawr o brofiad blaenorol. O ganlyniad, mae'r ymgynghoriadau diweddaraf yn llawer craffach o ran manteision sefydlu ysgol bob oed. Hefyd, maent yn rhoi sylw priodol i'r effeithiau posibl ar gymunedau, ac yn amlinellu'n glir sut byddai'r ysgol newydd yn effeithio ar ddisgyblion, rhieni a staff. Mae hyn wedi arwain at geisiadau llwyddiannus a chyfnod pontio mwy esmwyth i ysgol bob oed.

# Sefydlu ysgolion pob oed

Yn gyffredinol, penodwyd penaethiaid mewn pryd i baratoi ar gyfer sefydlu'r ysgol newydd. Mae amser paratoi yn amrywio o 18 mis i ychydig o ddyddiau. Yn aml, mae hyn yn dibynnu ar amgylchiadau'r ysgolion presennol a hyd y cyfnod ymgynghori. Pan gaiff penaethiaid eu penodi mewn modd amserol, cânt gyfleoedd i ddysgu oddi wrth ysgolion pob oed sefydledig ac ystyried sut orau i gymhwyso'r dysgu i'w cyd-destun eu hunain. O ganlyniad, gallant gynllunio'n strategol ar gyfer polisi ac arfer a datblygu gweledigaeth glir ar gyfer yr ysgol newydd. Hefyd, mae gan y penaethiaid hyn ran flaenllaw, yn gyntaf, mewn penodi uwch staff, ac yn ddiweddarach, mewn penodi pob aelod arall o staff. Mae'r penaethiaid hyn yn sefydlu ethos a diwylliant newydd yn llwyddiannus, er enghraifft trwy ailfrandio'r ysgol, creu gweledigaeth ysgol gyfan a dod â phob aelod o staff at ei gilydd i sefydlu synnwyr o ddiben ar y cyd. Mae'n ymddangos bod caniatáu amser digonol i bennaeth gynllunio a pharatoi cyn agor yr ysgol yn fuddiol. Mae'r rhai a benodwyd lai na 12 mis ymlaen llaw wedi nodi y bu amser ar gyfer cynllunio a pharatoi yn dynn iawn.

Pan na roddir digon o amser cynllunio i benaethiaid, rhaid gwneud gormod o benderfyniadau yn gyflym, a chaiff polisïau a gweithdrefnau blaenorol eu mabwysiadu yn y tymor byr. Maent yn ei chael yn anodd sefydlu hinsawdd newydd ar gyfer dysgu sy'n wahanol i'r hinsawdd yn yr ysgolion sy'n bodoli eisoes. Mae hefyd yn ei gwneud yn anodd ymgynghori'n llawn â rhieni a staff am newidiadau allweddol.

Un o'r heriau cychwynnol i arweinwyr yw sefydlu diwylliant ac ethos ysgol gyfan, ar draws sectorau. I gefnogi'r nod hwn, mae llawer ohonynt yn lleoli arweinwyr mewn gwahanol rannau o'r ysgol. Mae'r dull hwn yn hanfodol mewn ysgolion â sawl safle. Rhaid i arweinwyr sicrhau bod disgyblion a staff yn ymgynefino â'r adeilad newydd a dod i'r arfer â chael gwahanol gymunedau ysgolion ynghyd. Mae llawer ohonynt yn penderfynu ar wisg ysgol newydd sy'n rhoi hunaniaeth newydd i'r ysgol. Mewn llawer o achosion, mae gwisg ysgol y disgyblion oedran cynradd yn wahanol i wisg y disgyblion oedran uwchradd, ond mae wedi'i brandio'r un fath trwy liwiau a'r bathodyn ysgol. Mae hyn yn rhoi ymdeimlad o berthyn i'r un ysgol newydd i ddisgyblion.

Newidiodd bron pob un o'r ysgolion eu henw, gan ddynodi cyfnod newydd a dechrau newydd. Mewn ychydig o achosion, roedd yn anodd cytuno ar enw newydd, a chafwyd rhywfaint o wrthwynebiad gan y gymuned. Gwelodd ysgolion

a ymgynghorodd â disgyblion a rhieni ar enwi'r ysgol ei bod yn haws rheoli'r cyfnod pontio. Ychydig iawn o ysgolion yn unig a gadwodd hen enw'r ysgol uwchradd.

Caiff proses sefydlu ysgol newydd ei rheoli'n bennaf gan yr awdurdod lleol sy'n arwain ac yn cynorthwyo'r corff llywodraethol i benodi arweinwyr a staff. Mae hyn heb strategaeth genedlaethol benodol na phecyn cymorth i gynorthwyo cyrff llywodraethol ysgolion pob oed. Canfu'r rhan fwyaf o ysgolion fod rhoi diweddariadau rheolaidd i randdeiliaid, yn cynnwys rhieni, yn fuddiol ac yn darparu gwybodaeth hanfodol wrth baratoi teuluoedd i drosglwyddo i'r ysgol newydd wrth iddi agor. Gwerthfawrogodd llawer o ysgolion sefydlogrwydd cael swyddogion enwebedig yr awdurdod lleol a oedd yn rheoli eu trefniadau. Mewn ychydig o achosion, nid oedd yna unrhyw reolwr prosiect dynodedig o'r awdurdod lleol, cafodd yr ysgolion drafferth â baich sicrhau bod y gweithdrefnau cywir wedi cael eu dilyn a bod y gymuned wedi cael gwybod yn gyson am ddatblygiadau.

Mae strwythurau arwain mewn ysgolion pob oed yn dangos rhywfaint o debygrwydd, ac maent wedi eu seilio ar fodel ysgol uwchradd, yn gyffredinol. Mae hyn yn aml oherwydd bod nifer y disgyblion ar y gofrestr yn llawer mwy. Mewn llawer o achosion, cawsant eu pennu ymlaen llaw gan y corff llywodraethol cysgodol, ond fe'u haddaswyd wrth i uwch arweinwyr gael eu penodi. Mae llawer ohonynt wedi achub ar y cyfle i edrych ar strwythurau staffio ysgol gyfan. Erbyn hyn, mae'n fwy cyffredin cael pennaeth, un neu ddau ddirprwy bennaeth a phenaethiaid cynorthwyol. Ymagwedd sy'n gynyddol gyffredin o ran y strwythur staffio ac arweinyddiaeth yw rhannu'r ysgol yn sectorau. Fel arfer, mae'r rhain yn cynnwys y meithrin i Flwyddyn 4 (sector 1), Blynyddoedd 5 i 8 (sector 2) a Blynyddoedd 9 i 11 (sector 3). Y chweched dosbarth fyddai'r pedwerydd sector, os yw'n bresennol. Mae cyfuniadau amrywiol o arweinwyr eraill gyda rolau fel arweinwyr sector, cydlynwyr ac arweinwyr canol yn cwblhau'r strwythur arwain. Mae nifer a chyfuniad yr arweinwyr yn amrywio gryn dipyn yn ôl maint yr ysgol, ei lleoliad a nifer y safleoedd, a chymhlethdod cyffredinol.

Mae cyfrifoldebau a ddynodir i arweinwyr yn gynyddol yn rhai ar draws sectorau a'r ysgol gyfan. Yn yr ysgolion cyntaf a sefydlwyd, mae cyfrifoldebau'n adlewyrchu'r rhai a welir yn yr ysgolion cynradd ac uwchradd. Mae hyn yn cynnwys sawl pennaeth pwnc, arweinwyr cyfnodau allweddol a chydlynwyr. Dros gyfnod, mae ysgolion wedi symud tuag at arwain mentrau ysgol gyfan, er enghraifft meysydd dysgu a phrofiad y cwricwlwm newydd a phrofiadau a gofal bugeiliol ar draws pob oedran. Mae hyn, er enghraifft, wedi arwain at gydlynu'r

cynllunio ar gyfer cynnydd disgyblion yn well.

Wrth sefydlu'r ysgolion pob oed cyntaf, llenwyd y rolau arwain uchaf gan staff o gefndiroedd ysgol uwchradd. Roedd penodi pennaeth neu ddirprwy bennaeth o gefndir cynradd yn eithriad. Dros gyfnod, aethpwyd i'r afael o'r newydd â'r cydbwysedd rhwng arweinwyr o gefndiroedd ysgol uwchradd ac ysgol gynradd, ac yn y rhan fwyaf o ysgolion, ceir cyfuniad o uwch arweinwyr o'r gwahanol gefndiroedd sector.

Ystyriodd llawer o ysgolion fod eu blwyddyn gyntaf ar ôl agor yn anodd iawn. Bu'n rhaid iddynt ymdopi â phroblemau ag adeiladau'r ysgol yn ogystal ag ochr emosiynol dod â staff ynghyd ar ôl uno. Mewn ychydig o achosion, gwelwyd bod gormod o staff yn yr ysgol newydd, gyda chyllid annigonol, a bu'n rhaid lleihau nifer y staff.

Er bod arbedion ariannol wedi cael eu rhagweld yn sgil sefydlu ysgol bob oed, ychydig iawn o ysgolion pob oed sydd wedi darparu arbedion ar gyfer awdurdodau lleol. I ddechrau, gallent fod wedi disgwyl arbedion o ganlyniad i'r gofyniad am lai o staff, gwerthu asedau a chostau rhesymoli, ond nid yw hyn wedi cael ei wireddu, ac mewn llawer o achosion, mae costau awdurdodau lleol wedi cynyddu o ganlyniad i ddiswyddiadau a diogelu cyflogau. Mae llawer o ysgolion wedi wynebu rhwystrau ariannol anfwriadol, ac yn 2021, roedd lleiafrif (22%) yn dal cronfeydd wrth gefn negyddol. Mae hyn yn uchel o gymharu â chyfran yr ysgolion uwchradd (17%) a'r ysgolion cynradd (4%). Mae hyn yn cyferbynnu'n llwyr â'r sefyllfa cyn y pandemig pan oedd gan fwyafrif (64%) o ysgolion pob oed gronfeydd negyddol wrth gefn, ac roedd yr ysgolion uwchradd a chynradd hefyd yn dangos cyfrannau mwy o gronfeydd negyddol wrth gefn (43% ac 17% yn y drefn honno). Mae unrhyw arian a godwyd, er enghraifft o werthu adeiladau nad oedd eu heisiau, wedi cael ei ailfuddsoddi yng ngwasanaethau addysg ehangach yr awdurdod hwnnw, ond nid yw'r ysgol newydd wedi elwa arno'n benodol bob tro.

Mae cymorth ar gyfer penaethiaid yn ystod y cynllunio a datblygu cychwynnol wedi amrywio'n sylweddol ledled Cymru. Nododd llawer o benaethiaid y byddent wedi gwerthfawrogi cael mwy o gymorth gan eu hawdurdod lleol, a Llywodraeth Cymru. Roedd hyn yn arbennig o wir am y rhai oedd ag ychydig iawn o amser i baratoi a chynllunio ar gyfer agor yr ysgol newydd.

Yn gyffredinol, mae arweinwyr yn credu bod angen o leiaf bum neu chwe blynedd

ar ysgol bob oed i sefydlu ei hun a sicrhau bod staff, rhieni a disgyblion yn gweld mantais y model pob oed ar gynnydd a lles yn benodol.

## Corff llywodraethol

Mae wedi bod yn arfer gyffredin sefydlu corff llywodraethol cysgodol i oruchwylio'r cyfnod pontio o ysgolion sy'n bodoli eisoes i'r ysgol bob oed. Mae'r corff llywodraethol hwn fel arfer yn cynnwys cynrychiolaeth o'r holl ysgolion sy'n bodoli eisoes, yn cynnwys cadeiryddion llywodraethwyr a phenaethiaid presennol. Mewn ychydig o achosion, mae aelodau sydd ag agendâu cudd neu agendâu personol wedi rhwystro pontio esmwyth. Ychydig iawn o aelodau sydd â phrofiad blaenorol o sefydlu ysgol bob oed. Canfu llawer ohonynt y bu'n rhaid iddynt weithio i addasu eu meddylfryd, ystyried yr ysgol fel un endid newydd a chynllunio'n strategol fel un ysgol. Cydnabu llywodraethwyr bwysigrwydd gwneud penodiadau staff hanfodol yn gynnar. Mae ganddynt rôl allweddol mewn gweithio yn y gymuned, ac ynddi, i dawelu ofnau a chamsyniadau. I'r perwyl hwn, mae safon llywodraethwyr yn allweddol o ran gyrru a chefnogi'r cyfnod sefydlu.

Gwerthfawrogodd llywodraethwyr weledigaeth glir ac ymagwedd ffocysedig gan awdurdodau lleol at sefydlu'r ysgol newydd a darparu cyfeiriad strategol ar ei chyfer.

## Gweithio gyda'r gymuned

Mae gweithio gyda'r gymuned yn hanfodol o ran sicrhau bod ysgol bob oed yn cael ei sefydlu'n llwyddiannus. Yn yr enghreifftiau mwyaf llwyddiannus, gweithiodd llywodraethwyr ac awdurdodau lleol gyda chlystyrau o ysgolion oedd a effeithiwyd i amlinellu eu rhesymeg a manteision model pob oed. Mae wedi bod yn bwysig hysbysu ac ymgynghori â staff, rhieni, ac aelodau eraill o'r gymuned, am y broses, a sut bydd y gymuned gyfan yn elwa arni, nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mewn llawer o achosion, mae'r gymuned yn elwa ar ddefnyddio cyfleusterau o ansawdd uchel ar ôl oriau ysgol. Mae'r rhain yn cynnwys cyfleusterau chwaraeon, gofodau mawr ar gyfer digwyddiadau, theatrau a sinema. Yn aml, mae'r ysgolion

yn darparu ‘canolfan’ ar gyfer y gymuned ble gall rhieni fanteisio ar wasanaethau arbenigol gan nifer o asiantaethau.

I ddechrau, mewn llawer o achosion, roedd gan aelodau o’r gymuned amheuon am uno, ac maent wedi amharod i newid. Wrth i’r ysgol gael ei sefydlu’n llwyddiannus, mae amheuon wedi cael eu lleddfu’n sylweddol. Mae llawer o ysgolion wedi llwyddo i greu diwylliant ac ethos newydd sbon sy’n addas ar gyfer un ysgol bob oed.

Mae sefydlu ysgolion pob oed wedi cael ei dderbyn yn well mewn rhai awdurdodau lleol na mewn awdurdodau eraill. Er enghraifft, gwelwyd llai o wrthwynebiad i’w had-drefnu yn Sir Benfro, Ceredigion a Rhondda Cynon Taf, ac mae ganddynt sawl ysgol bob oed yn eu hawdurdod. Fe wnaethant ymgysylltu a chyfathrebu’n effeithiol â’r gymuned leol ar hyd y rhan fwyaf o gamau ffurfio’r ysgolion. O ganlyniad, mae cymunedau’n credu bod ysgolion pob oed o fudd i’w plant. Hefyd, cyfrannodd llwyddiant wrth sefydlu’r ysgol bob oed mewn awdurdod at dderbyn ysgolion newydd eraill mewn cymunedau eraill.

Mewn ychydig o awdurdodau lleol, mae ysgolion pob oed wedi cael effaith gadarnhaol ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg gyda chynnydd mewn disgyblion sy’n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg.

# Gwersi a ddysgwyd

Gwelwyd rhai llwyddiannau cynnar wrth sefydlu ysgolion pob oed, ond mae arweinwyr wedi nodi meysydd yr hoffent eu gwella hefyd. Rhannwyd y gwersi a ddysgwyd o fewn ysgolion ac awdurdodau lleol, a rhyngddynt. Mae hyn wedi golygu bod yr ysgolion diweddaraf a sefydlwyd wedi elwa ar edrych yn ôl, ac wedi osgoi rhai anawsterau. Mae’r prif wersi a ddysgwyd yn cynnwys y canlynol:

**Figure 5.Graphic as static image with long description**

- Sicrhau nad yw strwythurau arwain yn rhy gymhleth a chostus
- Sefydlu systemau ac amserlenni cyffredin
- Darparu digon o amser cynllunio a pharatoi i arweinwyr, a threfnu digon o amser i barhau â hyn i'r pen
- Sicrhau bod awdurdodau lleol yn gwarchod yn erbyn gwneud addewidion afrealistig neu anghynaliadwy, er enghraifft ynghylch diogelu swyddi neu gyllid
- Darparu adeiladau sy'n addas at eu diben, ac yn barod ar gyfer eu defnyddio pan fydd yr ysgol yn agor i ddisgyblion
- Bod yn ymwybodol fod teyrngarwch i ysgolion blaenorol yn gallu arwain at wrthwynebiad gan staff sefydledig; gweithio ar adeiladu ethos cynhwysol trwy ddarparu cymorth i staff trwy gydol y cyfnod pontio
- Rhoi ystyriaeth ofalus i gyfansoddiad corff llywodraethol cysgodol, i osgoi sefyllfa lle mae pobl yn eirioli eu hagendâu eu hunain yn unig
- Ymgynghori'n ystyrlon ac yn drylwyr â'r holl randdeiliaid; i osgoi ymdeimlad o 'wneud i' yn hytrach na 'gwneud gyda' – darparu'r wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd
- Bod yn barod am wrthwynebiad gan y gymuned; bydd rhieni'n pryderu am faterion fel colli ethos 'teuluol' ysgolion cynradd, a phlant ifanc yn cymysgu â disgyblion llawer hŷn
- Sicrhau tryloywder pan fydd cynnig ad-drefnu yn gysylltiedig â phrosesau eraill diwygio addysg, er enghraifft ad-drefnu darpariaeth ôl-16

# Effaith model ysgol bob oed

## Effaith ar addysgu a dysgu

Mae trefniadau pontio mewn ysgolion pob oed yn gadarn. Mae llawer ohonynt yn gweithio’n agos iawn gyda’u hysgolion cynradd partner i sicrhau cydlyniant wrth gyflwyno’r cwricwlwm a chymedroli. Mae cynllunio ar y cyd ac arbenigedd pwnc yn yr ysgol a’r clwstwr yn sicrhau parhad pan fydd disgyblion yn pontio i Flwyddyn 7. Gan fod athrawon yn adnabod eu disgyblion o oedran cynnar, mae disgyblion oddi mewn i ysgol bob oed yn ymgynefino’n well ym Mlwyddyn 7 na’r rhai sy’n trosglwyddo o ysgolion cynradd ar wahân. Yn ystod pandemig y coronafeirws, sicrhaodd ysgolion pob oed drefniadau pontio addas trwy weithgareddau arloesol fel teithiau rhithwir o’r ysgol, a sesiynau holi ac ateb gyda staff. Cynhaliwyd diwrnodau rhithwir agored ar gyfer rhieni. Mae llawer o ysgolion pob oed yn elwa ar brofiadau pontio parhaus ble mae disgyblion yn mynychu gwersi’n rheolaidd yn sector uwchradd yr ysgol.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion ar ddiwedd Blwyddyn 6 mewn ysgol bob oed yn dechrau Blwyddyn 7 yn yr ysgol honno. Mae ychydig o ddisgyblion o ysgolion partner yn penderfynu peidio â throsglwyddo i’r ysgol bob oed ym Mlwyddyn 7. Mae hyn o ganlyniad i ystod o resymau, yn cynnwys iaith, safonau canfyddedig gwell a phellter teithio.

Yn yr un modd â llawer o ysgolion, os bydd meysydd penodol yn perfformio’n wael, rhoddir cymorth iddynt drwy’r consortiwm rhanbarthol neu’r awdurdod lleol, yn dibynnu ar y cyd-destun. Darperir cymorth mwy cyffredinol yn unol â gwasanaethau cymorth ysgolion ar gyfer ysgolion a allai fod â hanes o berfformio’n wael. Mae hyn yn arbennig o wir lle mae ysgolion mewn categori gweithgarwch dilynol cyn uno.

Un o fanteision posibl ysgol bob oed a dderbynnir yw’r gallu i gydlynu a chynllunio darpariaeth ar draws pob sector. Mae hyn yn cynnwys cynllunio profiadau cyffredin, polisïau addysgu cyson a chynllunio ar gyfer cynnydd di-dor. Mewn llawer o ysgolion, mae athrawon yn cynllunio profiadau ar draws pob sector yn dda. Mae llawer o ysgolion wedi mabwysiadu egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru, ac yn ogystal â gweithredu’r cwricwlwm yn y blynyddoedd cynnar, maent

wedi cynllunio ar gyfer cynnydd gyda disgyblion cyfnod allweddol 3.

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi penodi arweinwyr ar gyfer pob maes dysgu a phrofiad, ac ymgorfforir y rolau hyn yn strwythur staffio'r ysgol. Mae cynllunio ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru yn y cyfnod sylfaen yn fwy datblygedig nag ydyw ar gyfer sectorau eraill, ond mewn llawer o achosion, mae cynllunio ar gyfer cyfnod allweddol 2 yn tueddu i ganolbwyntio ar waith prosiect. Mewn ychydig o achosion, mae athrawon yn colli cyfleoedd i ddarparu cwricwlwm digon cyfoethog sy'n datblygu'n naturiol wrth i ddisgyblion symud trwy'r ysgol.

Er bod ysgolion wedi gwneud datblygiadau o ran cynllunio profiadau, ac wedi manteisio ar fod yn ysgol bob oed, nid yw parhad y cwricwlwm yn gryf bob amser. Nid yw arweinwyr ysgol bob oed bob amser yn manteisio ar arbenigedd arweinwyr pwnc wrth gynllunio'r cwricwlwm ar draws yr ysgol. Hyd yn oed mewn achosion lle mae gan un unigolyn gyfrifoldeb am agwedd ar draws yr ysgol gyfan, nid yw bob amser yn deall y camau cynnydd y mae angen i ddisgyblion iau eu cymryd i amgyffred lefelau uwch mewn pwnc. Mae hyn yn golygu nad yw gwaith ar gyfer disgyblion bob amser yn rhoi digon o ystyriaeth i'w dysgu blaenorol, ac nid yw disgwyliadau arweinwyr yn ddigon uchel. Mae gan ychydig o ysgolion fwy nag un aelod o staff sydd â chyfrifoldeb am faes, ac maent yn cadw'r rhaniad rhwng cynradd ac uwchradd. Mewn ychydig o achosion, nid yw ysgolion yn manteisio ddigon ar eu cyfleusterau i wella'r profiadau ar gyfer disgyblion iau.

Mae datblygu cwricwlwm ar gyfer Blwyddyn 5 trwodd i Flwyddyn 8 yn flaenoriaeth i'r rhan fwyaf o ysgolion. Mae ysgolion yn datblygu eu dehongliad o bedwar diben y Cwricwlwm i Gymru (Llywodraeth Cymru, 2020) a cheir cydweithredu da rhwng athrawon o fewn ysgolion a gydag ysgolion eraill. Mae llawer o ysgolion yn rhoi pwyslais cryf ar sicrhau mewnbwn disgyblion i gynllunio'r cwricwlwm ac i beth maent yn ei ddysgu, a sut.

Yn ystod pandemig COVID-19, defnyddiodd y rhan fwyaf o ysgolion pob oed y cyfnodau clo i staff gynllunio a gwerthuso darpariaeth. Roedd hyn yn golygu bod

ysgolion yn parhau â'u cynllunio ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru ac yn arbrofi â dulliau newydd gyda'u disgyblion. Roedd hefyd yn gyfle i athrawon roi arweiniad a chymorth i eraill ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm newydd. Datblygodd llawer o athrawon raglenni dysgu o bell a dysgu cyfunol. Fe wnaethant gynllunio'n ofalus a chreu adnoddau dynamig i gefnogi dysgu. Parhaodd hyn pan ddychwelodd disgyblion i'r ysgol, ac mae wedi galluogi athrawon i ddefnyddio dull mwy cyfunol yn eu haddysgu, defnyddio adnoddau digidol a darparu gwaith ar gyfer disgyblion pan na allant fynychu'r ysgol.

Mae gan y rhan fwyaf o ysgolion pob oed un polisi addysgu sy'n amlinellu disgwyliadau mewn gwersi a chynnydd dros gyfnod. Mae gwella addysgu a chadarnhau materion nad ydynt yn agored i drafodaeth yn brif flaenoriaeth ar gyfer ysgolion pob oed, ac yn cael ei weld hefyd fel cryfder posibl model ysgol bob oed.  Mae athrawon yn sefydlu cysondeb darpariaeth ystafell ddosbarth fel arferion, disgwyliadau uchel a ffiniau disgyblu y mae disgyblion yn eu deall a'u derbyn wrth iddynt symud trwy'r ysgol.

Mae llawer o ysgolion yn gwneud defnydd da o arbenigwyr i gyflwyno darpariaeth arbenigol ar wahân yn y sector cynradd, er enghraifft mewn ieithoedd tramor modern, cerddoriaeth a mathemateg. Mae staff yn cydweithio o fewn yr ysgol, a gydag ysgolion eraill. Maent wedi cydnabod bod buddion i staff o gefndir uwchradd ddysgu gan gydweithwyr yn y sector cynradd, ac i'r gwrthwyneb. Ymestynnwyd hyn yn benodol yn ystod y pandemig lle rhoddwyd amser i lawer o staff weithio gyda'i gilydd a datblygu ymdeimlad o undod o fewn yr ysgol. Mewn ychydig o ysgolion, nid oes digon o weithio ar draws sectorau, a cheir ymdeimlad ar gam mai'r 'sector uwchradd sy'n gwybod orau'.

Mae llawer o ysgolion yn rhannu dulliau asesu fel bod disgyblion yn glir ynglŷn â'r hyn y mae angen ei wneud i wella eu gwaith. Yn yr ysgolion hyn, mae disgyblion yn adnabod drostynt eu hunain sut i wella eu gwaith eu hunain wrth iddynt symud trwy'r ysgol.

Dywed athrawon fod eu haddysgu wedi gwella ers gweithio mewn ysgol bob oed, yn sgil cynllunio gwersi'n fwy gofalus a rhannu syniadau. Mae'n ymddangos bod gan athrawon fwy o barch at eu cymheiriaid sy'n gweithio mewn gwahanol sectorau oedran.

# Effaith ar les a gofal bugeiliol

Mae lles disgyblion yn brif ffocws ac yn gryfder go iawn mewn ysgolion pob oed. At ei gilydd, mae deilliannau arolygu ar gyfer ysgolion pob oed yn gadarnhaol ar gyfer lles. Yn ystod pandemig COVID-19, roedd y gefnogaeth ar gyfer dysgwyr a'u teuluoedd yn gryfder arbennig yn yr ysgolion hyn.

Dywedodd disgyblion eu bod yn hapus yn yr ysgol ac yn teimlo'n ddiogel bob amser. Roeddent yn gwerthfawrogi'r modd yr oedd yr ysgol yn rhoi arweiniad a chyfarwyddyd mewn cyfnodau anodd. Er enghraifft, yn ystod y pandemig, roedd bron pob ysgol yn cysylltu â disgyblion yn rheolaidd pan nad oedd disgwyl iddynt fynychu'r ysgol, gan wirio eu lles a chynnig cymorth. Cynigiodd ysgolion gymorth i deuluoedd a chyfle i ddisgyblion bregus ychwanegol fynd i'r ysgol, os oedd angen. Mae ysgolion yn pryderu am effaith hirdymor pandemig COVID-19 ar les ac iechyd meddwl disgyblion, ac yn dweud bod cynnydd eisoes yn nifer y disgyblion hŷn sy'n cael eu hatgyfeirio i weithwyr proffesiynol iechyd meddwl, a hefyd mwy o ddisgyblion yn dioddef o orbryder a achoswyd gan ansicrwydd ynghylch cymwysterau a baich gwaith.

Caiff adeiladau newydd a chyfleusterau o ansawdd da effaith gadarnhaol amlwg ar les disgyblion. Roedd hyn yn amlwg yn y parch a ddangoswyd gan ddisgyblion i'w hamgylchedd a'r balchder a gymerwyd i sicrhau bod yr adeilad yn rhydd rhag sbwriel ac yn lle pleserus ar gyfer eu cyfoedion.

Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae disgyblion yn ymddwyn yn dda. Mae disgyblion hŷn yn fodelau rôl da ar gyfer disgyblion iau. Enghraifft o hyn yw'r ffordd y mae disgyblion y chweched dosbarth yn ymweld ag ystafelloedd dosbarth disgyblion iau i'w cynorthwyo â darllen a gwaith ysgol. Mae hyn yn meithrin ymdeimlad o barch ar y ddwy ochr rhwng disgyblion, ac yn codi dyheadau disgyblion.

Mae llawer o ddisgyblion yn credu eu bod yn cael cyfleoedd addas i fynegi eu barn, ac y caiff y farn hon ei gwerthfawrogi. Mae cynghorau ysgol yn cynnwys disgyblion o Flwyddyn 3 i Flwyddyn 13 ac maent yn weithgar iawn mewn llawer o ysgolion. Mewn ysgolion sydd â sawl safle, mae cynghorau ysgol yn cynnal cyfarfodydd rhithwir, sy'n sicrhau'r defnydd gorau o amser, ac yn atal teithio diangen. Trwy'r cyngor ysgol, mae disgyblion wedi cymryd rhan mewn ymgynghoriadau ac wedi cyflwyno awgrymiadau ar gyfer gwella eu bywyd yn yr ysgol. Er enghraifft, darparodd un ysgol offer chwaraeon newydd yn dilyn cais gan y cyngor ysgol, a gwnaeth ysgol arall newidiadau i'r diwrnod ysgol.

Mae gofal a chymorth bugeiliol yn gryf yn y rhan fwyaf o ysgolion pob oed. I

raddau helaeth, maent yn cyflawni eu potensial i ofalu am eu disgyblion ac yn dod i'w hadnabod nhw a'u teuluoedd o oedran cynnar. O ganlyniad, mae gan arweinwyr ac athrawon ddealltwriaeth gadarn o anghenion disgyblion ac amser i fynd i'r afael â phryderon. Er bod lefelau presenoldeb cyn y pandemig yn isel mewn ychydig iawn o ysgolion, mae gan y rhan fwyaf ohonynt swyddogion presenoldeb a lles effeithiol sy'n olrhain presenoldeb disgyblion yn agos. Roedd hyn yn arbennig o effeithiol yn ystod y pandemig pan gysylltodd swyddogion â theuluoedd a disgyblion yn rheolaidd, a nodwyd teuluoedd bregus yn gynnar. Ymwelon nhw â chartrefi disgyblion a gweithio gydag asiantaethau eraill i ddarparu cymorth perthnasol.

Mae ysgolion yn rhoi pwys mawr ar ymgysylltu â theuluoedd a rhieni. Mae llawer ohonynt yn gweithio mewn timau o amgylch y teulu i edrych yn gyfannol ar anghenion disgybl. Caiff ychydig o ysgolion eu cynnwys yn helaeth mewn prosiectau cymunedol sy'n cefnogi disgyblion a'u teuluoedd ymhellach.

Yn ystod y pandemig, ymdrechodd ysgolion pob oed i gynnal gofal a chymorth bugeiliol i ddisgyblion. Er na allai disgyblion fynd i'r ysgol, trefnodd ysgolion gyfleoedd rhithwir i ddisgyblion gysylltu a mynd i'r afael ag unrhyw bryderon. Darparodd llawer o ysgolion gyfleoedd i ddisgyblion fynychu a gweld staff wyneb yn wyneb pan roedd angen. Trefnwyd cyfarfodydd rhithwir ar gyfer disgyblion a oedd yn trosglwyddo o ysgolion partner i Flwyddyn 7.

Wrth ddychwelyd i'r ysgol ar ôl y cyfnod clo, cynhaliodd bron pob ysgol sesiynau lles i helpu disgyblion i addasu i fywyd ysgol o'r newydd. Fe wnaeth disgyblion elwa ar sesiynau ymwybyddiaeth ofalgar, ioga a gweithgareddau corfforol a rhoddwyd cyfleoedd iddynt fynegi eu pryderon a'u hemosiynau. O ganlyniad, rhoddwyd cymorth targedig ar gyfer eu lles i fwy o ddisgyblion nad oeddent yn cael eu hystyried yn fregus o'r blaen.

Caiff disgyblion ag anghenion addysgol arbennig eu monitro'n ofalus trwy gydol eu cyfnod mewn ysgolion pob oed. Fel arfer, mae un cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol yn gweithio ar draws pob sector o'r ysgol. Mae ychydig o ysgolion wedi cadw dau gydlynydd ag arbenigedd ar wahân mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. Mae adnabod anghenion disgybl yn gynnar yn allweddol i ddarparu'r cymorth pwrpasol cywir. Un o fanteision ysgol bob oed yw bod staff yn adnabod eu disgyblion eu hunain o oedran cynnar a thrwy gydol eu haddysg statudol. Mae llawer o ysgolion yn canolbwyntio ar gysylltiadau â rhieni disgyblion oedran cynradd gan y byddant yn yr ysgol am flynyddoedd lawer.

Mae llawer o ysgolion pob oed yn delio'n dda ag unrhyw achosion o fwlio sy'n codi. Mae ganddynt fantais ychwanegol o ran gwybod cefndir a hanes yr holl ddisgyblion sy'n dechrau yn y meithrin neu'r derbyn, ac yn aml, gallant fynd i'r afael yn llwyddiannus ag unrhyw broblemau bwlio yn gynnar.

Mae timau cymorth bugeiliol yn tueddu bod yn fwy mewn ysgolion pob oed nag ydynt mewn sectorau ar wahân. Gall timau cynhwysiant mawr gynnwys penaethiaid blwyddyn, penaethiaid sector, uwch arweinwyr, swyddogion presenoldeb a chydlynwyr. Mae'r timau hyn yn nodi disgyblion bregus yn gynnar, ac yn cynllunio cymorth pwrpasol trwy ymagwedd gydlynus at olrhain cynnydd a lles. Mae arweinwyr yn rhoi ystyriaeth dda i lais disgyblion, staff, a rhieni ynghylch lles. Mae'r ymagwedd gydweithredol hon yn arwain at newidiadau yn y modd y mae'r ysgol yn ymdrin â materion ymddygiad a materion bugeiliol, er enghraifft o ran sefydlu systemau i ddisgyblion gael seibiant neu fanteisio ar gymorth. Mae cyfathrebu rhwng staff a thimau bugeiliol yn gryf, ar y cyfan, a darperir gwybodaeth yn rheolaidd trwy gyhoeddiadau a chronfeydd data.

Darperir cymorth ychwanegol mewn lleiafrif o ysgolion trwy ganolfannau adnoddau dysgu penodol. Ar y cyfan, mae'r rhain yn effeithiol ac yn rhoi cyfle i ddisgyblion fynd i'r afael â'u problemau gyda chymorth pwrpasol gan staff sy'n meddu ar gymwysterau da. Mae llawer o ddisgyblion yn ystyried y canolfannau hyn yn hafan ddiogel ble gallant ddibynnu ar staff i wrando a mynd i'r afael â phroblemau a allai fod ganddynt yn yr ysgol neu gartref. Mae ysgolion yn nodi bod y canolfannau hyn yn amhrisiadwy ar ôl pandemig COVID-19, lle mae gan ddisgyblion fwy o broblemau iechyd meddwl, gorbryder, a lle ceir adroddiadau am gam-drin domestig. Yn yr un modd â sectorau eraill, mae gan ysgolion pob oed gysylltiadau agos ac effeithiol ag asiantaethau allanol.

# Effaith ar arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae strwythurau arwain yn amrywio ar draws ysgolion pob oed yng Nghymru. Mae llawer o fodelau ac maent yn dibynnu ar gyd-destun yr ysgol, fel maint, lleoliad daearyddol, a ffafriaeth unigol. Mae llawer o fodelau wedi esblygu dros gyfnod wrth i'r beichiau newidiol o ran arweinyddiaeth ddod yn glir. Mewn rhai achosion, roedd strwythurau arwain yn gymhleth i ddechrau, ond maent wedi cael eu symleiddio ers hynny wrth i arweinwyr sylweddoli beth oedd yn gweithio'n dda ar gyfer ysgol bob oed. Gellir gweld enghreifftiau o strwythurau arwain yn Atodiad 4.

Wrth sefydlu ysgol newydd, roedd ychydig o ysgolion yn wynebu heriau a etifeddwyd gan yr ysgolion a oedd yn bodoli eisoes. Roedd y rhain yn cynnwys gwrthwynebiad gan staff a oedd wedi bod mewn swyddi am gyfnod hir ac yn amharod i newid, er enghraifft newid i hunaniaeth yr ysgol a phryderon am eu rôl wrth weithio gydag arweinwyr newydd.

Mae ysgolion pob oed yn cynnig cyfleoedd arwain gwerthfawr i'w staff. Gall y rhai sydd â phrofiad arwain blaenorol naill ai yn y sector uwchradd neu'r sector cynradd ehangu eu profiadau ar draws pob oed. Er enghraifft, mae'n debygol iawn mai ychydig iawn o brofiad o egwyddorion y cyfnod sylfaen neu ofynion cwricwlwm cyfnod allweddol 2 fyddai gan uwch arweinydd yn y sector uwchradd. Yn yr un modd, mae'n debygol iawn mai ychydig iawn o wybodaeth am gymwysterau a gofynion cyrsiau TGAU a Safon Uwch fyddai gan arweinwyr yn y sector cynradd.

Yn adroddiad Estyn ym mis Mehefin 2015 ar arfer orau o ran datblygu arweinyddiaeth mewn ysgolion, un o'r prif ganfyddiadau oedd bod 'cynllunio ar gyfer olyniaeth ar bob lefel yn aml yn gryfder arwyddocaol mewn ysgolion â diwylliant cadarn o ddysgu proffesiynol' ac 'mae hyn yn arbennig o bwysig ar lefel arweinyddiaeth ganol ac uwch ac mae'n caniatáu i swyddi gael eu llenwi'n fewnol os oes angen pan fydd swyddi gwag yn codi' (Estyn, 2015, tud.4). Trwy ddatblygu arweinwyr yn benodol ar gyfer ysgolion pob oed, addaswyd strwythurau arwain i gynnwys arweinwyr â chyfrifoldebau ysgol gyfan, er enghraifft arweinwyr pwnc sy'n cydlynu'r gwaith o'r meithrin i Flwyddyn 11, uwch arweinwyr bugeiliol sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am les ar gyfer yr holl ddisgyblion a chydlynwyr medrau sy'n cynllunio ar gyfer dilyniant ar draws pob sector. Mae ailstrwythuro uwch dimau arweinyddiaeth ar ôl yr ysgol wedi digwydd yn bennaf ble arhosodd y timau arweinyddiaeth fel y maent yn yr ysgolion sy'n bodoli eisoes. Yn yr achosion hyn, bu cystadleuaeth am rolau arwain o ganlyniad, gan fod yr uno wedi golygu bod angen llai o arweinwyr.

Datblygodd y rhan fwyaf o ysgolion un weledigaeth ar gyfer yr ysgol. Mae hyn fel arfer wedi'i seilio ar yr ysgol yn darparu'r addysg orau ar gyfer disgyblion o bob oed. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, mae ysgolion yn trin y sectorau uwchradd a chynradd yn wahanol o hyd, ac fel pe baent yn ysgolion ar wahân. Nododd ychydig o ysgolion eu bod wedi goresgyn y rhwystr hwn trwy lynu at y weledigaeth ar gyfer yr ysgol wrth wneud penodiadau. Rhoddodd hyn resymeg gadarn iddynt ar gyfer penodi'r unigolyn neu'r unigolion gorau ar gyfer rolau arwain yn yr ysgol newydd.

Mae gan bron pob ysgol linellau atebolrwydd clir. Mae trefniadau rheoli perfformiad yn ysgogi gwelliannau ac mae amcanion staff wedi'u cysylltu'n agos â blaenoriaethau'r ysgol. Mae dysgu proffesiynol a hyfforddiant mewn swydd yn berthnasol i flaenoriaethau gwella ac amcanion rheoli perfformiad.

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn gwerthuso'u gwaith ar draws yr ystod oedran gyfan, ac mae ganddynt ymagweddau cyson ar draws y sectorau at brosesau sicrhau ansawdd. Mae ysgolion yn ailgydio'n araf â gweithdrefnau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant ar ôl y pandemig.

Mae ysgolion yn craffu ar waith disgyblion ar draws sectorau, ac mae staff yn gweithio gyda'i gilydd i nodi cryfderau a meysydd i'w gwella. Mae'r canfyddiadau'n llywio cynllun gwella'r ysgol. Mae'n fwyaf cyffredin cael un cynllun gwella ar gyfer yr ysgol gyfan, ond maent yn mynd i'r afael â materion yn benodol i oedran pan fydd angen. Mae llawer ohonynt yn gwneud defnydd buddiol o farn disgyblion a rhieni i lywio gwelliant. Mewn ychydig o ysgolion, mae barn disgyblion a rhieni yn cyfrannu'n dda at hunanwerthuso a chynllunio gwelliant, er enghraifft wrth ystyried ansawdd gwaith cartref neu newidiadau i'r diwrnod ysgol.

Gallai fod gan ysgolion flaenoriaethau penodol y maent yn dymuno mynd i'r afael â nhw, ond mae cyffredinedd ym mlaenoriaethau llawer o ysgolion. Mae'r rhain yn cynnwys gwella medrau disgyblion, diwygio'r cwricwlwm ac anghenion dysgu ychwanegol. Un o'r blaenoriaethau mwyaf dybryd a nodwyd gan ysgolion yw adnewyddu a diwygio yn sgil pandemig COVID-19. Ar gyfer yr ysgolion pob oed a agorwyd yn fwyaf diweddar, sefydlu eu hunain fel ysgol bob oed yw'r flaenoriaeth, sy'n cynnwys datblygu polisi addysgu, cwricwlwm a systemau cyson.

Ym mhob ysgol, mae'r corff llywodraethol yn goruchwylio prosesau a deilliannau gwerthuso. Mae llywodraethwyr yn monitro gwelliant yr ysgol ac yn dwyn arweinwyr i gyfrif yn dda yn y rhan fwyaf o achosion. Mae gan y rhan fwyaf o ysgolion bwyllgor penodol i fonitro pa mor dda y mae'r ysgol yn gwneud cynnydd yn unol â blaenoriaethau.

Yn ystod ein hymweliadau ag ysgolion a thrafodaethau ag awdurdodau lleol, nodwyd bod ysgolion pob oed wedi wynebu heriau penodol hefyd. Mae trosiant o ran arweinyddiaeth mewn ychydig o ysgolion yn broblem, gyda sawl pennaeth yn cael eu penodi ac yn gadael eu swyddi ar ôl cyfnod byr. Mewn ychydig o ysgolion, nid yw cyfrifoldebau'n gweddu'n addas i ysgol bob oed nac i ofynion newidiol yn gysylltiedig â diwygio addysg, er enghraifft cyfrifoldebau nad ydynt yn rhychwantu ystod oedran gyfan yr ysgol na'r rhai sydd wedi'u seilio ar ystod gyfyng o feysydd. Tan yn ddiweddar, gweithredodd ychydig o ysgolion fel ysgolion cynradd ac uwchradd ar wahân lle gwnaethant ddyblygu dogfennau a chynnal systemau gwahanol i'w gilydd. Trosglwyddodd disgyblion ar ddiwedd Blwyddyn 6 yn yr un modd â'r disgyblion hynny o ysgolion cynradd partner, gan ddileu manteision posibl ysgol bob oed.

Yn ddiweddar, mewn llawer o ysgolion pob oed, mae'r dysgu proffesiynol a ddarperir yn fewnol wedi cael ei fireinio a'i ddatblygu i fodloni anghenion staff mewn ysgolion pob oed. Mae'n arferol cael gweithgareddau dysgu proffesiynol sy'n addas ar gyfer yr ysgol gyfan, ac athrawon disgyblion o bob oedran. Maent yn canolbwyntio ar fentrau ysgol gyfan, yn ogystal â blaenoriaethau cenedlaethol. Mae arweinwyr yn darparu hyfforddiant yn benodol i sector yn unol â'r angen.

Mae dysgu proffesiynol allanol yn benodol ar gyfer ysgolion pob oed yn brin, gyda chonsortia yn darparu ar wahân ar gyfer athrawon ac arweinwyr cynradd ac uwchradd. Nid yw hyn yn gwneud defnydd da o amser athrawon, gan fod angen i'r ysgol anfon cynrychiolwyr i fynychu sesiynau dysgu cynradd ac uwchradd fel ei gilydd.

Mae llawer o ysgolion yn nodi anghenion staff unigol trwy drefniadau adolygu perfformiad. Mae llawer o ysgolion wedi sefydlu grwpiau o dri neu bedwar aelod o staff i weithio ar agweddau penodol ar addysgu. Hefyd, mae ysgolion wedi ffurfio grwpiau ymchwil ar gyfer addysgu a dysgu, y cwricwlwm, a datblygu medrau. Mae'r rhan fwyaf o'r grwpiau hyn yn cynnwys staff sy'n addysgu ar draws sectorau ac sy'n dod â'u safbwynt eu hunain i'r gwaith. Yn rhan o'r ymchwil, mae staff o ysgolion pob oed wedi ymweld ag ysgolion eraill a gwledydd eraill. Mae'r rhwydwaith cenedlaethol ysgolion pob oed yn darparu platfform defnyddiol iawn ble gall arweinwyr drafod materion sy'n benodol i sector a threfnu gweithio gyda'i gilydd ar feysydd cyffredin.

Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae sicrhau ansawdd gweithgareddau dysgu proffesiynol yn cynnwys pob aelod o staff ac yn canolbwyntio ar effaith y

gweithgarwch dysgu ar berfformiad yr unigolyn. Mae athrawon yn arsylwi ei gilydd yn addysgu ac yn cwblhau gweithgareddau gwerthuso gyda'i gilydd i fesur effaith eu hyfforddiant a'u hymchwil. Mae llawer o ysgolion yn bwriadu datblygu arweinwyr yn fewnol i gefnogi cynllunio ar gyfer olyniaeth. Mae penaethiaid yn credu y dylid datblygu arweinwyr sydd ag arbenigedd yn y sector pob oed, gan nad oes gan ddigon o arweinwyr brofiad o weithio mewn darparwyr pob oed eraill ar hyn o bryd.

Mae llawer o ysgolion pob oed mewn partneriaeth â darparwyr addysg gychwynnol athrawon. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, un rhaglen benodol yn unig a geir i hyfforddi athrawon ar gyfer ysgolion pob oed. Mae hyn yn golygu bod myfyrwyr addysg gychwynnol athrawon (AGA) ar leoliad mewn ysgolion pob oed yn colli cyfleoedd i ymestyn eu hyfforddiant a'u profiad trwy gymorth a dysgu ategol.

Gallai ysgolion pob oed elwa ar hyfforddiant a chymorth mwy allanol sy'n benodol i'r sector. Mae arweinwyr yn benodol yn nodi bod rhaid iddynt fynychu mwy o hyfforddiant a chyfarfodydd na'u harweinwyr cyfatebol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. Hefyd, mae galw am ddatblygu rolau arwain ar bob lefel mewn ysgolion pob oed.

Mae consortia rhanbarthol yn darparu cymorth ar gyfer ysgolion pob oed, fel y byddent i'r holl ysgolion eraill yn y rhanbarth. Mae gan ymgynghorwyr o'r awdurdodau lleol a'r consortia rhanbarthol arbenigedd cyfyngedig yn y sector ysgolion pob oed. At ei gilydd, maent yn darparu cymorth sydd naill ai'n seiliedig ar y sector uwchradd neu'r sector cynradd. Mewn ychydig o achosion, mae hyn wedi arwain at ddyblygu darpariaeth a dyblu'r disgwyliad ar ysgolion pob oed i gymryd rhan neu anfon cynrychiolwyr. Mae penaethiaid yn nodi y byddai cymorth sy'n benodol i sector yn gwella'r cydweithredu presennol ag ysgolion pob oed eraill.

Er na chodwyd unrhyw bryderon gan staff na disgyblion yn ystod ein hastudiaeth am ansawdd a nifer yr adnoddau sydd ar gael iddynt, dywedodd arweinwyr yn gyffredinol fod rhaid iddynt ymdopi ag adnoddau ariannol cyfyngedig. Mae hyn yn effeithio ar allu ysgol i ysgogi gwelliannau fel y byddent yn dymuno hefyd.

Datblygiad nodedig yw'r rhwydwaith cenedlaethol o ysgolion pob oed, sy'n rhoi cyfle i ysgolion pob oed gydweithio, rhannu arfer dda a dysgu gwersi oddi wrth ei gilydd. Wrth i fwy o ysgolion pob oed ennill eu plwyf, mae pwysigrwydd y

rhwydwaith hwn wedi tyfu. Mae'r fforwm yn cyfarfod yn rheolaidd i ystyried datblygiadau yn y sector a thrafod sut mae materion mewn addysg yn benodol yn effeithio ar ysgolion pob oed. Mae hyn yn cynnwys dwyn ynghyd wybodaeth gan benaethiaid, athrawon, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol. Mae'r fforwm hefyd yn ymgysylltu'n gadarnhaol ag Estyn trwy ddigwyddiadau a chynadleddau rhanddeiliaid. Mae'r fforwm yn elwa'n gynyddol ar ymchwil genedlaethol a rhyngwladol ar ysgolion pob oed. Er bod yna strwythurau sy'n gynhenid gymhleth o ran eu sefydlu a'u rheoli, mae cael dealltwriaeth fanwl o sut mae ysgolion eraill yn gweithredu yn gallu cynorthwyo arweinwyr i ddatblygu eu hysgolion eu hunain. Yn fwyaf diweddar, mae wedi datblygu ei wefan ei hun (allageschoolsforum.cymru) sy'n cynnwys yr holl wybodaeth sy'n berthnasol i ysgolion pob oed (Fforwm Ysgolion Pob Oed, 2021). Nod y wefan yw cynnig ffordd arall o rannu gwybodaeth er budd pawb. Trwy'r rhwydwaith hwn y mae ysgolion pob oed wedi gallu ymweld ag ysgolion pob oed eraill yng Nghymru a thramor.

# Geirfa

| | |
|---|---|
| addysgeg | Dull ac arfer addysgu |
| consortia rhanbarthol | Y ddarpariaeth a sefydlwyd gan grŵp o awdurdodau lleol i gyflwyno gwasanaethau gwella ysgolion fel yr amlinellir ym Model Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Gweithio’n Rhanbarthol (2014) |
| Meysydd dysgu a phrofiad | Mae Dyfodol Llwyddiannus yn cyfeirio at ddatblygu chwe maes dysgu a phrofiad fel ffordd o drefnu pynciau’r cwricwlwm. Y rhain yw’r celfyddydau mynegiannol, iechyd a lles, y dyniaethau, ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu, mathemateg a rhifedd, a gwyddoniaeth a thechnoleg. |
| Rhwydwaith cenedlaethol o ysgolion pob oed | Fforwm ar gyfer ysgolion pob oed yng Nghymru ar gyfer rhannu syniadau ac ymchwil |
| Sectorau | Grwpiau blwyddyn wedi eu dyrannu o fewn ysgol bob oed. Gellir cael hyd at bedwar sector mewn un ysgol.<br>Sector 1: Meithrin i Flwyddyn 4<br>Sector 2: Blwyddyn 5 i Flwyddyn 8<br>Sector 3: Blwyddyn 9 i Flwyddyn 11<br>Sector 4: chweched dosbarth (lle mae’n bresennol)<br>Mae sectorau 2 a 3 yn rhychwantu gwahanol gyfnodau allweddol. |
| Ysgol bob oed | Ysgol sy’n cyfuno o leiaf ddau gyfnod o addysg plentyn (cynradd ac uwchradd, yn nodweddiadol).<br>Cânt eu dosbarthu hefyd yn ysgolion canol a’u diffinio yn ôl ystod oedran y disgyblion y maent yn darparu ar eu cyfer. Naill ai 3-16, 3-19, 4-16 neu 4-19. |

# Cyfeiriadau


Fforwm Ysgolion Pob Oed (2021) *Croeso i'r Fforwm Ysgolion Pob Oed.* [Ar-lein]. Ar gael o: https://allageschoolsforum.cymru/cy/home/ [Darllenwyd 12 Tachwedd 2021].

Yr Adran Addysg a Sgiliau (2006) *All-Age Schooling: A Resource*. London: Innovations Unit, Department for Education and Skills. [Ar-lein]. Ar gael o: https://dera.ioe.ac.uk/8642/2/A9R1CAD_Redacted.pdf [Darllenwyd 11 Ebrill 2019].

Estyn (2015) Arfer orau o ran datblygu arweinyddiaeth mewn ysgolion. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2020-07/Arfer_orau_o_ran_datblygu_arweinyddiaeth_mewn_ysgolion_-_Mehefin_2015.pdf [Darllenwyd 12 Tachwedd 2021].

Estyn (2021) *Ystadegau Swyddogol.* [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/node/14721 [Darllenwyd 14 Hydref 2021].

Arolygiaeth Ei Mawrhydi, Yr Alban (2011) *Learning Together: Opening up Learning in All Through Schools*. [Ar-lein]. Ar gael o: https://dera.ioe.ac.uk/997/ [Darllenwyd 11 Ebrill 2019].

Jamaican All-Age Schools Project (2003) *Changing the Future: Impact Assessment of the Jamaica All Age Schools Project*. Telford: Prifysgol Wolverhampton. [Ar-lein]. Ar gael o: http://cidt.org.uk/wp-content/uploads/2014/04/cidt_changingthefuture-impact.pdf [Darllenwyd 12 Ebrill 2019].

Reynolds, D., et al. (2018) *Ysgolion Pob Oed: Tirwedd Newidiol Addysg Cymru*. Prifysgol Abertawe, Yr Ysgol Addysg. [Ar-lein]. Ar gael o: https://allageschoolsforum.cymru/cy/the-changing-landscape-of-welsh-education/ [Darllenwyd 12 Ebrill 2019].

Swidenbank, H. (2007) The Challenges and Opportunities of Leading and

Managing an All-age School. Nottingham: National College for School Leadership, Research Associate Report. [Ar-lein]. Ar gael o: https://dera.ioe.ac.uk/7055/1/download%3Fid%3D17118%26filename%3Dchallenges-opportunities-all-age-school-full-report.pdf [Darllenwyd 12 Ebrill 2019].

Llywodraeth Cymru (n.d.) *Fy Ysgol Leol.* [Ar-lein]. Ar gael o: https://mylocalschool.gov.wales/Schools/SchoolSearch?lang=cy [Darllenwyd 14 Hydref 2021].

Llywodraeth Cymru (2014) *Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol.* [Ar-lein]. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael o: https://llyw.cymru/model-cenedlaethol-ar-gyfer-gweithion-rhanbarthol [Darllenwyd 12 Ebrill 2019].

Llywodraeth Cymru (2019) *Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21fed Ganrif.* [Ar-lein]. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael o: https://llyw.cymru/rhaglen-ysgolion-yr-21ain-ganrif [Darllenwyd 12 Ebrill 2019].

Llywodraeth Cymru (2020) *Canllaw Cwricwlwm i Gymru.* [Ar-lein]. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael o: https://hwb.gov.wales/api/storage/b0e91f7c-0050-47b6-9b23-0273d39df9f3/canllawiau-cwricwlwm-i-gymru-070220.pdf [Darllenwyd 12 Tachwedd 2021].

Llywodraeth Cymru (2021) *Rhestr Gyfredol o Ysgolion yng Nghymru.* [Ar-lein]. Ar gael o: https://llyw.cymru/rhestr-gyfredol-o-ysgolion [Darllenwyd 14 Hydref 2021].

Llywodraeth Cymru (2021) *Canlyniadau'r Cyfrifiad Ysgolion: Ebrill 2021.* [Ar-lein]. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael o: https://llyw.cymru/canlyniadaur-cyfrifiad-ysgolion-ebrill-2021 [Darllenwyd 14 Hydref 2021].

Wilborg, S. (2004) Education and Social Integration: A Comparative Study of the Comprehensive School System in Scandinavia. [Ar-lein]. *London Review of Education*, 2 (2), 83-93. Ar gael o: https://www.researchgate.net/publication/44836262_Education_and_Social_Integration_a_comparative_study_of_the_comprehensive_school_system_in_Scandinavia [Darllenwyd 11 Ebrill 2019].

# Atodiadau

**Atodiad 1: Sail y dystiolaeth**

**Atodiad 2: Siartiau a thablau**

**Atodiad 3: Cyfnod pontio disgyblion mewn ysgolion pob oed a chanlyniadau arolygu**

**Atodiad 4: Strwythurau Uwch Arweinyddiaeth mewn ysgolion pob oed**

**Atodiad 6: Cyd-destun pellach ar gyfer ysgolion sydd wedi eu cynnwys mewn cameos**

# Atodiad 1: Sail y dystiolaeth

- Data a ystyriwyd – canlyniadau ac ystadegau arolygu ynghylch niferoedd disgyblion a modelau
- Ysgolion yr ymwelwyd â nhw:

  Ysgol Cwm Brombil – Castell-nedd Port Talbot

  Cymuned Ddysgu Abertyleri – Blaenau Gwent

  Ysgol Bro Idris – Gwynedd

  Ysgol Gatholig Crist y Gair – Sir Ddinbych

  Cymuned Ddysgu Ebwy Fawr – Blaenau Gwent

  Ysgol 3-18 Idris Davies – Caerffili

  Ysgol Gymunedol Porth – Rhondda Cynon Taf

  Ysgol Santes Ffraid – Sir Ddinbych

  Ysgol Gymunedol Tonyrefail – Rhondda Cynon Taf

  Ysgol Bae Baglan – Castell-nedd Port Talbot

  Ysgol Bro Hyddgen – Powys

  Ysgol Bro Pedr – Ceredigion

  Ysgol Bro Teifi – Ceredigion

Ysgol Caer Elen – Sir Benfro

Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg – Bro Morgannwg

Ysgol Ystalyfera Bro Dur – Castell-nedd Port Talbot

Ysgol Henry Richard – Ceredigion

Ysgol Llanhari -  Rhondda Cynon Taf

Ysgol Nantgwyn - Rhondda Cynon Taf

Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Penrhyn Dewi – Sir Benfro

Ysgol Llanfyllin – Powys

Ysgol Garth Olwg – Rhondda Cynon Taf

Ysgol Godre'r Berwyn – Gwynedd

- Siaradodd AEM â grwpiau o ddisgyblion tra'n ymweld â'r darparwr. Gofynnom am farn disgyblion o'r ystod oedran gyfan, a chyfrannodd gwybodaeth at ganfyddiadau ynghylch safonau, addysgu, arweinyddiaeth, a lles.
- Ymweliadau a galwadau i'r awdurdodau lleol canlynol:

  Gwynedd

  Torfaen

  Blaenau Gwent

  Ceredigion

Sir Benfro

Sir Ddinbych

Rhondda Cynon Taf

Castell-nedd Port Talbot

Sir y Fflint

Caerffili


- Mae'r llenyddiaeth a adolygwyd fel yr amlinellir yn yr adran gefndir a chyfeiriadau.
- Ystyriwyd tystiolaeth arolygu ar gyfer pob ysgol a arolygwyd fel ysgol bob oed. Cyfrannodd hyn at adrannau ar safonau a lles.

# Atodiad 2: Siartiau a thablau

## Atodiad 2: Siartiau a thablau


### Ffigur 2: Cyfuniadau ysgolion sydd wedi arwain at ysgolion pob oed

Allwedd: YU: ysgol uwchradd; YG: ysgol gynradd
Ffynhonnell: Fy ysgol leol




### Ffigur 3: Nifer yr ysgolion pob oed yng Nghymru

Ffynhonnell: Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion, 2021




### Tabl 1: Nodweddion ysgolion pob oed

| | Isafswm | Uchafswm | Cyfartaledd |
|---|---|---|---|
| Disgyblion | 326 | 1,713 | 970 |
| Disgyblion y sector cynradd | 133 | 1,007 | 306 |
| Disgyblion y sector uwchradd | 164 | 1,329 | 664 |
| Cyfartaledd 3 blynedd PYDd | 6% | 46% | 20% |
| AAA | 10% | 36% | 19% |
| SIY (A-D) | 0% | 14% | 2% |

Source: Pupil level annual school census, 2021

# Atodiad 3: Cyfnod pontio disgyblion mewn ysgolion pob oed a chanlyniadau arolygu

### Tabl 2: Cyfnod pontio disgyblion mewn ysgolion pob oed

| Rhif yr ysgol | Enw'r ysgol | Canran y disgyblion Blwyddyn 7 o Flwyddyn 6 yn yr un ysgol |
|---|---|---|
| 6615500 | Bro Idris | 80% |
| 6775501 | Cymuned Ddysgu Abertyleri | 68% |
| 6685500 | Ysgol Caer Elen | 66% |
| 6665500 | Ysgol Bro Hyddgen | 48% |
| 6675500 | Ysgol Bro Pedr | 47% |
| 6635901 | Ysgol Santes Ffraid | 46% |
| 6675501 | Ysgol Henry Richard | 46% |
| 6675502 | Ysgol Bro Teifi | 45% |
| 6635902 | Crist y Gair | 42% |
| 6685900 | Ysgol Penrhyn Dewi | 40% |
| 6745502 | Ysgol Nantgwyn | 40% |
| 6615501 | Ysgol Godre'r Berwyn | 37% |
| 6765500 | Ysgol 3 i 18 Idris Davies | 25% |
| 6745504 | Ysgol Garth Olwg | 23% |
| 6745500 | Ysgol Llanhari | 23% |
| 6745501 | Ysgol Gymunedol Porth | 20% |
| 6745503 | Ysgol Gymunedol Tonyrefail | 18% |
| 6775500 | Cymuned Ddysgu Ebwy Fawr | 15% |
| 6715500 | Ysgol Bae Baglan | 14% |
| 6715502 | Ysgol Cwm Brombil | 14% |
| 6735500 | Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg | 14% |
| 6715501 | Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur | 6% |
| 6665501 | Ysgol Llanfyllin | 0% * |

Ffynhonnell: Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion, 2021

* Mae ystadegau Ysgol Llanfyllin yn dangos na throsglwyddodd unrhyw ddisgyblion o'i charfan ei hun ym Mlwyddyn 6, gan mai dim ond ym mis Medi 2020 yr agorwyd yr ysgol.

## Tabl 3: Canlyniadau arolygu pob oed er 2017


| Enw'r Darparwr | Safonau | Lles ac agweddau at ddysgu | Addysgu a phrofiadau dysgu | Gofal, cymorth ac arweiniad | Arweinyddiaeth a rheolaeth |
|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol Bro Idris | Dig. | D | Dig. | Dig. | Dig. |
| Ysgol Gymunedol Porth | A | Dig. | A | Dig. | Dig. |
| Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg | D | Rh | D | Rh | D |
| Ysgol Bro Teifi | D | Rh | D | Rh | D |
| Ysgol Bae Baglan | Dig. | D | D | D | D |
| Ysgol Henry Richard | Dig. | D | Dig. | D | Dig. |
| Cymuned Ddysgu Abertyleri | Dig. | Dig. | Dig. | Dig. | A |
| Ysgol Llanhari | D | D | D | DD | D |

Allwedd: Rh: Rhagorol, D: Da, Dig.: Digonol ac angen gwelliant, A: Anfoddhaol ac angen gwelliant brys

Ffynhonnell: Estyn, 2021

# Atodiad 4: Strwythurau Uwch Arweinyddiaeth mewn ysgolion pob oed

### Figure 5.Graphic as static image with long description



# Atodiad 6: Cyd-destun pellach ar gyfer ysgolion sydd wedi eu cynnwys mewn cameos

### Ysgol 3-18 Idris Davies

Mae'r ysgol yn gwasanaethu cymunedau Rhymni, Abertyswg a Phontlotyn. Mae tua 32% o ddisgyblion yn gymwys am brydau ysgol am ddim, sydd uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae gan ryw 28% o ddisgyblion anghenion addysgol arbennig. Penodwyd y pennaeth presennol ym mis Hydref 2017.

### Ysgol Caer Elen

Mae'r ysgol yn gwasanaethu cymunedau Hwlffordd a'r ardal. Mae 8% o ddisgyblion yn gymwys am brydau ysgol am ddim, sydd islaw'r cyfartaledd cenedlaethol. Daw bron i 93% o ddisgyblion o gartrefi di-Gymraeg. Mae gan 16% o ddisgyblion anghenion addysgol arbennig. Penodwyd y pennaeth presennol ym mis Chwefror 2021.

### Ysgol Llanhari

Mae tua 6% o ddisgyblion yn gymwys am brydau ysgol am ddim, sydd gryn dipyn yn is na'r cyfartaleddau cenedlaethol ar gyfer ysgolion uwchradd a chynradd. Mae 16%  o ddisgyblion ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol, sydd islaw'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae gan ychydig iawn o ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Penodwyd y pennaeth ym mis Medi 2014.

### Ysgol Gymunedol Tonyrefail

Agorwyd yr ysgol ym mis Medi 2018. Mae tua 25% o ddisgyblion yn gymwys am brydau ysgol am ddim, sydd uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae gan ryw 2% o ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Penodwyd y pennaeth 18 mis cyn i'r ysgol agor.

### Ysgol Nantgwyn

Agorwyd yr ysgol ym mis Medi 2018. Mae tua 33% o ddisgyblion yn gymwys am brydau ysgol am ddim. Mae gan ryw 1% o ddisgyblion ddatganiad o anghenion

addysgol arbennig. Penodwyd y pennaeth 18 mis cyn i'r ysgol agor.

### Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion o gefndiroedd ethnig gwyn, ac mae 7% yn gymwys am brydau ysgol am ddim, sy'n llawer is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Daw 39% o ddisgyblion o gartrefi Cymraeg eu hiaith, ac mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad Cymraeg yn rhugl. Mae gan 11% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol, ac mae'r ganran sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig islaw 1%. Mae'r ddau ffigur islaw'r cyfartaledd cenedlaethol. Penodwyd y pennaeth ym mis Ionawr 2021. Mae'r pennaeth presennol wedi bod yn ei swydd er mis Ionawr 2021.

### Ysgol Godre'r Berwyn

Mae tua 9% o ddisgyblion yn gymwys am brydau ysgol am ddim, sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae gan 1% o ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Agorwyd yr ysgol ym mis Medi 2019 ar ôl uno Ysgol y Berwyn, Ysgol Bro Tegid ac Ysgol Beuno Sant. Penodwyd y pennaeth ryw 12 mis cyn i'r ysgol agor.

### Ysgol Henry Richard

Mae'r awdurdod lleol wedi adeiladu is-adran gynradd newydd, ac wedi adnewyddu'r adran uwchradd. Mae un corff llywodraethol wedi bod yn ei le ers sefydlu'r ysgol. Mae tua 13% o ddisgyblion yn gymwys am brydau ysgol am ddim. Agorwyd yr ysgol fel ysgol bob oed yn 2014, ac ar ôl cyfnod fel pennaeth dros dro, penodwyd y pennaeth i'r swydd ym mis Medi 2017.